

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 294 - 60c
Mehefin 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Seren
newydd yr
Elyrch



Tudalen 17

Cadwyn
cyfrinachau
yr ifanc



Tudalen 13

Dirgelwch
llun Clonc
1984



Tudalen 3

Llawenhau yn Llanybydder a Llanfair Clydogau

Partïon Cymunedol ar ddiwrnod y Briodas Frenhinol

Adroddiad ar dudalen 6



Llanybydder

O gwmpas y fro...



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn eu cinio blynyddol yng Nhwesty'r Grannell, Llanwnnen.



Disgyblion Ysgol y Dderi a ddaeth i'r brig yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe eleni



Beca Roberts Ysgol Carreg Hirfaen a ddaeth yn drydydd yn Ras Traws Gwlad Cymru yn Aberystwyth.



Mari Lewis Ysgol Carreg Hirfaen a gafodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am greu gwefan.

YSWIRIANT FUW
Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai

 Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

Dewch i drafod eich anghenion gyda
Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW**,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwylliaeth a chymuned. Ffurio ydych chi'n gysylltu gyda'r Undeb hon.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Eleri Thomas BSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lán gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Breccs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mehfin a Gorffennaf Marian Morgan, Glasfan, Drefach 01570 480490
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamllwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.

• Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk

• Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.

• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin

lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn

ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk

• Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

• Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.

• Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Y Coesau - 1984 gan Eifion Davies

Ychydig feddyliais ar ddydd Iau yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llambled yn 1984, fod llun a dynnais o ferch wedi gwrthio ei hun i drafferth yng nghefn y pafiliwn yn cael ei atgyfodi 27 mlynedd yn ddiweddarach.

Sioned Edwards (Davies) o Llanybydder sy'n gweithio i'r Eisteddfod Genedlaethol, a oedd yn 14 oed yn '84, gofiodd am y ferch mewn trybini, pan ddechreuodd yr Eisteddfod chwilio am droeon trwstan dros y blynyddoedd yn hanes y Steddod. Do, fe gofiodd fod llun wedi ymddangos yn Rhifyn 3 o 'Clonc' yr Eisteddfod, a dyma ofyn caniatâd i ddefnyddio'r llun.

Y BBC yn danfon Iola Wyn i gyfnewid rhai ohonom ac i chwilio am y ferch. Wedi i'r eitem ymddangos cefais alwad oddi wrth Gwenfydd James, a roddodd enw Mari Stone o Rhandirmwyn i fi. Derbyniodd y BBC yr un enw gan eraill o'r cylch. Roedd Mari ar y pryd wedi gorffen yn ysgol Pantycelyn ac ar fin dechrau yn y Brifysgol. Fe lwyddodd i wrthio i wagle rhwng y wal a'r to, ac wedi gweld y cadeirio ar y llwyfan, methodd ddod allan. Llwyddodd y stiwardiaid, yr heddlu a'r frigid dan ei rhyddhau yn y diwedd. Roedd yn 'llawn embaras' meddai Mari, 'ac roeddwn yn gobeithio fod hyn yn ddiwedd ar y stori'. Ond ar ei bore cyntaf yn y Brifysgol, wrth ddisgwyl mewn ciw' yn y ffretur, dyma'r un oedd o'i blaen yn troi ac yn ei chyfarfod, "Ti oedd y ferch oedd yn 'stuck' ym mhafiliwn Llambled". Trwy lwc, meddai Mari dyna ddiwedd ar y stori, tan nawr.

Trip wedyn i Iola Wyn a fi i 'Wyastone Leys', parc busnes tu allan i Drefynwy i gwrdd â Mari Hutchings, erbyn hyn, sy'n rhedeg busnes 'Angelic Hen' yno. Rhowch enw'r fusnes ar 'google' ac fe gewch y manylion i gyd. Cawsom groeso cynnes iawn gan Mari a'i chyd-weithwyr. Cyflwynodd Iola ddau docyn gasglwyd oddi wrth



Iola Wyn, Radio Cymru, Mari Hutchings ac Eifion Davies



Rhifyn mis Gorffennaf
Yn y Siopau
Gorffennaf 7fed
Erthyglau, Newyddion a
Lluniau i law erbyn
Mehfin 23ain

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld
gwerth mewn hysbysebu yn y
Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o
bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes
CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cydnabyddir cefnogaeth



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Meigrin

* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd tîm pêl-droed merched Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Abertystwyth yn ddiweddar gan ennill Pencampwriaeth Pêl-droed Merched Ceredigion. Yn dilyn llwyddiant yn y gemau grŵp yn erbyn Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Penparc, Talybont a Llandysul, curwyd Llanilar yn y chwarteri ac Aberaeron yn y gêm gyn-derfynol.

Aberteifi oedd y gwrthwynebwyr yn y gêm derfynol ac mewn gêm hynod o gyffrous aeth Carreg Hirfaen ar y blaen ar ddiwedd yr hanner cyntaf efo ergyd dda gan Beci Harrison. Amddiffynodd y merched yn wych am weddill y gêm ond efo'r gic olaf un daeth Aberteifi yn gyfartal er mawr llawenydd i'w cefnogwyr brwd.

Carreg Hirfaen eto a reolodd y gêm yn amser ychwanegol gan bwysu ar gôl Aberteifi ond methwyd yn lan a chael y bêl i'r rhwyd er dod yn agos ar sawl achlysur.

Ymlaen wedyn i giciau o'r smotyn a phedair merch ddewr o'r ddau dîm yn camu ymlaen i gymeryd cic yr un. Nerfau pwy oedd mwyaf cadarn tybed?

Er mawr ryddhad i'r merched a'u cefnogwyr tîm Carreg Hirfaen a rwydodd y bêl mwyaf cyson a thrwy hynny ennill Tlws yr Urdd a'r fraint o gael cynrychioli Sir Ceredigion ym Mhencampwriaethau Cymru.

Bu tri o dimau Rygbi iau yr ysgol yn cymeryd rhan yng ngŵyl rygbi Tag Sir Gaerfyrddin yn Llandeilo yn ddiweddar. Roedd chwaraewyr o flynyddoedd 2, 3 a 4 yng ngharfan Carreg Hirfaen a braf iawn oedd eu gweld yn datblygu o gêm i gêm wrth chwarae yn erbyn ysgolion eraill Sir Gâr. Dyma gystadleuaeth rygbi gyntaf nifer o'r plant yn nhimau B a C Carreg Hirfaen ond wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen daeth y ddau dîm i chwarae yn fwy hyderus a nifer o'r plant yn amlygu eu hunain fel chwaraewyr dawnus.

Efo tros ddeugain o dimau yn bresennol rhaid llongyfarch Tim A Carreg Hirfaen am fynd trwy'r diwrnod gan ennill pob gêm ac ennyn parch nifer o wybodysion rygbi am eu dawn, eu sgiliau a'r modd yr oeddent yn chwarae fel tîm. Llongyfarchiadau mawr i aelodau y tri tîm.

Ar brynhawn dydd Mercher 13eg, bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn brysur wrth gât yr ysgol yn cynnal Twba Lwcus a raffl y Pasg i rieni a disgyblion. Pwrpas hyn oedd i godi arian i brynu adnoddau ac offer i'w defnyddio yn ystod amseroedd chwarae. Roedd yn brynhawn llwyddiannus ac hoffai aelodau'r Cyngor Ysgol ddiolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi.

Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen ymweliad gan y nyrs ddeintyddol yn ddiweddar. Buodd yn siarad am bwysigrwydd glendid

dannedd ac esboniodd sut mae golchi dannedd yn gywir. Mae Carreg Hirfaen nawr yn rhan o'r Cynllun Gwên sy'n golygu bod y plant yn brwsio'u dannedd unwaith y dydd yn yr ysgol.

Bu plant y Cyngor Eco yn cynnal caffi Masnach Deg yn ddiweddar. Cafodd yr holl ysgol gyfle i ddysgu am fasnach Deg ac i flasu amrywiaeth dda o fwydydd. Diolch i Miss June am helpu.

Llongyfarchiadau i Undeg Jones a Charlotte Howell Bl 2 am ddod yn 2ail a 3ydd yng nghystadleuaeth Celf yr Urdd. Enillodd y ddwy y wobrau am eu gwaith printio.

Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar drip addysgiadol i Gei Newydd fel rhan o'u gwaith Maes Daearyddiaeth. Buont yn cymharu pentref Cwmann â Chei Newydd. Elwodd y plant yn fawr iawn o'r profiad.

Eglwys Sant Iago

Ar fore Sul y Palmwydd cafwyd gwasanaeth o'r Boreuol weddi yn yr eglwys dan arweiniad yr Hybarch Dr William Strange. Darllenwyd y llithiau gan Mrs Ceinwen Evans a Mrs Geraldine Hardy a chafwyd neges bwrpasol iawn gan y ficer. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans. Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg ar nos Fawrth Ebrill 19eg yn yr eglwys dan arweiniad y ficer, yr Hybarch Dr William Strange. Agorwyd y festri gyda gweddi gan y ficer. Rhoddodd ei adroddiad gan gynnwys diolch i'r wardeiniaid ffyddlon â'r swyddogion am eu cefnogaeth, ac i bawb sydd yn gwasanaethu drwy gydol y flwyddyn. Cafwyd adroddiad y trysorydd a'r ysgrifennydd a'r cyfan yn foddhaol, diolchodd y ficer am eu gwaith cywir a manwl. Yna aeth ymlaen i ddewis swyddogion am y flwyddyn.

Ar nos Iau Gablyd cynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd yn yr eglwys dan arweiniad y ficer i goffhau sefydlu'r Cymun Bendigaidd yn y Swper Olaf.

Ar fore dydd Gwener y Groglith ymunodd rhai aelodau eglwys Sant Iago gyda aelodau eglwys Dewi Sant Llanycrwys i gerdded o sgwâr Ffarmers i'r eglwys a phawb yn cael cyfle i gario'r croes yn eu tro. Cafwyd gwasanaeth tawel bendithiol yn eglwys Dewi Sant o weddïau, emynau a darlenniadau. Diolch i aelodau eglwys Dewi Sant am y cwpanaid te blasus a'r byns ar ddiwedd y gwasanaeth- braf oedd cael cymdeithasu. Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth o dawelwch o ddau o'r gloch hyd dri o'r gloch a chyfle i fyfyrïo ymhellach- wrth wrando ar y darlenniadau ac edrych ar ffenestr y croeshoeliad sydd yn Eglwys Sant Padrig ym Mhencarreg. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans a'r gwasanaeth yng ngofal yr Hybarch Dr William Strange.

Yn ystod cyfnod y Grawys eleni

cawsom gyfle fel aelodau a ffrindiau i gwrdd yn wythnosol i ddarllen yr Efengyl yn ôl Marc dan arweiniad y ficer. Braf oedd cael trin a thrafod gyda'n gilydd am yr efengyl.

'Atgyfododd Iesu'n Wir'. Daeth nifer dda iawn ynghyd i wasanaeth o'r Cymun Bendigaidd ar fore Sul y Pasg yn eglwys Sant Iago dan arweiniad yr Hybarch Dr William Strange. Croesawodd y ficer bawb i'r gwasanaeth a dymunodd Basg Hapus a bendithiol i bawb a'u teuluoedd. Gwnaed y darlenniadau gan y ddau warden Mr Danny Davies a Mr Graham Evans. Cafwyd neges y Pasg gan y ficer yn ei bregeth bwrpasol. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd datganiad gan 'Gôr y Llan'. Diolchodd y ficer iddynt ac i bawb am eu presenoldeb. Ar ôl cyfnod y Grawys roedd yr eglwys yn llawn goleuni ac wedi ei haddurno gan flodau lliwgar. Yng nghefn yr eglwys roedd gardd y Pasg yn dangos y bedd gwag ac yn cadarnhau'r neges- 'Y mae wedi atgyfodi.' Diolch i bawb am bob cydweithrediad a'u parodrwydd i roi cymorth gyda'r addurno ac am y blodau a dderbyniwyd.

I gloi yr wythnos fawr cynhaliwyd ar Nos Sul y Pasg wasanaeth dawl bendithiol iawn o'r Cymun Bendigaidd yn cynnwys 'Eiriolaeth Iachau' yn yr eglwys dan arweiniad yr Hybarch Dr William Strange ac yn cynorthwyo roedd Canon W Richards. Mae croeso i bawb ymuno yn y gwasanaeth yma sydd yn Eglwys Sant Iago ar y pedwerydd Sul o bob mis am 6 o'r gloch.

Cynhelir Gŵyl Gorawl eglwysi'r ddeoniaeth yn eglwys Llanddewi Brefi ar ddydd Sul Mehefin 19eg. Yn ein harwain eleni bydd Mrs Ceinwen Evans. Gwasanaeth plant yn y prynhawn am 2.30 o'r gloch ac oedolion am 6 o'r gloch.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Cliff Thomas Maeshelyg ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt mewn gair a gweithred yn ystod eu profedigaeth. Diolch hefyd am rhoddion at D.E.B.R.A yr elusen a ddewiswyd.

Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arthur Jenkins, 26 Heol Hathren ar ddathlu eu priodas ddiamwnt. Gobeithio i chi gael amser da.

Gwellhad buan

Dymunwn adferiad buan i'r canlynol sywdd wedi bod yn yr ysbyty, Mrs Mary Lewis, Sŵn yr Afon, Mrs May Evans, Ffern Felinfach a Canon Winzie Richards.

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Doreen

Harris, 21 Heol Hathren a Mrs Jones, 3 Heol Hathren ar ddathlu eu penblwyddi yn 80 oed.

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Iona Trevor Jones yn ysbyty Bronglais. Symudodd hi a'i phriod Trevor i fyw i Tynant Cwmann o ardal Croesowallt un mlynedd ar hugain yn ôl. Roedd yn ddynes brysur tu hwnt a oedd wedi cael profiadau o osod blodau a darlithio ar y QE2, gan ymweld hefyd â nifer o wledydd gyda'i gwaith bob dydd. Agorodd ei chartref a'r gerddi i'r cyhoedd ar hyd y blynnyddoedd. Roedd yn wyneb cyfarwydd i bawb ac fe'i gwelwyd ar y teledu droeon, a'r tro olaf ond ychydig wythnosau yn ôl, yn cael ei hadnabod fel Brenhines y blodau. Ysgrifennodd gyfrol o lyfrau ar ei hanes a'i theithiau gan godi arian mawr at wahanol elusennau teilwng. Coffa da amdani. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar.

Clwb 125

Enillwyr Mis Mai 2011. 1af, Ceinwen Evans, Cwmann. 2il, Fiona Jones, Cwmann. 3ydd, Gavin a Rebecca Evans, Llanllwni. 4ydd, Eleri Davies, Cwmann. 5ed, Kate Williams, Cwmann. 6ed, Danny Davies, Cwmann. 7fed, Jean Thomas, Cwmann. 8fed, Llinos Jones, Cwmann. 9fed, Dinni Hardy, Cwmann. 10fed, Wayne Evans, Llanllwni.

Diolch

Dymuna Tommy ac Irene Price, Gelliwrol, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Sefydliad y Merched, Coedmor.

Trefnwyd taith ddirgel ar ein cyfer ar Nos Fawrth, Mai 4ydd gan Gwen Jones a Veronica James. Teithiodd yr aelodau i Felin Ganol yn Llanrhystud. Croesawyd ni yno gan Andrew ac Anne Parry. Cawsom weld y felin yn gweithio a chael hanes sefydlu'r fenter. Roedd yn brofiad diddorol ag addysgiadol iawn a chafwyd cyfle i flasau a phrynu eu cynnyrch, sef bara, bara brith a chacennau o bob math, ar ddiwedd y noson. Diolchodd Gwen am eu croeso a dymunodd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Aethom ymlaen wedyn i gael swper yn y 'Royal Oak' yn Aberaeron. Cafwyd cyfarfod busnes byr i drefnu'r lluniaeth ar gyfer diwrnod Mabolgampau a Charnifal y pentref. Diolchodd ein Llywydd, Noleen Davies i Gwen a Veronica am drefnu noson bleserus iawn.

Yn y cyfarfod nesaf ar Fehefin 6ed bydd Angharad Merwah yn arddangos ac yn siarad am Saris.



MEHEFIN

- 4 - Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon.
- 4 - Noson 'Apêl Elain 2011' yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda bwyd, adloniant, ocsiwn a raffl.
- 4 - Taith gerdded o amgylch Dre-fach Felindre heibio i hen felinau gwlân a sawl carreg filltir arall yn hanes y diwydiant gwlân. I adael yr Amgueddfa am 10.30yb. Dewch â phe cyn bwyd, dillad ac esgidiau addas. Dim cŵn. Am ddim. 01559 370929.
- 10 + 11 Barbiciw a Gŵyl Gwrw yn Neuadd y Pentref Llanfair.
- 11 - Diwrnod Hwyl gyda Sali Mali ar gaeau Glanafon, Llanllwni.
- 12 - Cwrdd Plant, Barbiciw a Stondin Gacennau Capel Bethel Parcyrhos am 1.30y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 13 - Taith Ddirgel Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 15 - Cystadleuaeth Rownderi gyda Chlwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 18 - Gŵyl Fwyd cyntaf Castell Newydd Emlyn yng Nghaeau Chwarae Brenin Siôr V yn y dref o 11yb – 4yp.
- 23 - Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
- 24 a 25 'SPLASH' C.Ff.I. Ceredigion ar gaeau Llanllyr, Talsarn.
- 24 - Rasy Sarn Helen yn Ysgol Gynradd Felinfach am 6:30y.h.
- 25 - Dawns Haf Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7:00y.h. Tocynnau £20 ar gael oddi wrth Ann Herbert 01570 421392 / 07890 060357.
- 25 - Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog, i ddechrau am 12:30y.p.
- 26 - Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal 'It's a Knockout' yng nghae Rygbi Llanybydder am 3:00y.p.
- 28 - Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal Helfa Drysor am 6:30y.h.
- 29 - Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal noson Gwis yn Llew Du, Llanybydder am 7:00y.h.

GORFFENNAF

- 2 - Carnifal a Mabolgampau pentref Llanybydder yng nghae Rygbi Llanybydder. I ddechrau am 1:00y.p. gyda gorymdaith o'r mart.
- 2 - Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr. Trefnir gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon.
- 2 - Diwrnod Hwyl a Mabolgampau gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 9 - Mabolgampau pentref Cwrtnewydd ar gae'r ysgol.
- 10 - Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi gan Gôr Glannau Ystwyth am 7:30y.h. Elw tuag at y capel.
- 29 - Noson Goffi a BBQ yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni. Elw tuag at Eglwys St Luc Llanllwni am 7.30y.h.
- 30 - Ffêt y Pentre yn Neuadd y Pentref Llanfair.

AWST

- 13 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 20 - Sioe Amaethyddol a Cheffylau Gorsgoch ac Arddangosfa Hen Beiriannau.
- 26-29 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambled.

MEDI

- 2 - Sioe Ffasiynnau a Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I. Ceredigion ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant, Llambled.
- 3 - Sioe Llandysul.
- 9 - Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach. Beirniad: Dewi Pws; Cyflwynydd: Geraint Lloyd. Beth am fod yn rhan o dîm Clonc? Mwy o fanylion i ddilyn.
- 10 - Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
- 11 - Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb y Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 24 - Noson yng Nghlwb Rygbi Llanybydder yng nghwmni Clive Edwards ag eraill am 8:00y.h. Elw tuag at Ymchwil Cancr.

HYDREF

- 1 - Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd ag Aled ac Eleri Edwards, Cilycwm; Kees Huysmans ac eraill yn Neuadd Bro Fana Ffarmers am 7.30y.h. Elw tuag at Ambiwylans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
- 12-14 Sioe Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yn Theatr Felinfach.



Parti Ysgol Cwrtnewydd yn fuddugol ar y Parti Cyd-adrodd i ysgolion gynradd yn Eisteddfod Capel y Groes.

Cydymdeimlo


Cydymdeimlir yn ddwys â Sally a Walter Harries, 2 Clarence House a Mrs Ray Evans ac Evan David, Brynhogfaen ar golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb ym mherson Maggie Evans, [gynt o Bryn, Llanwnnen].

Llanybydder

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Byron a Rachel-Anne, Yr Hafod ar farwolaeth sydyn eu merch, Lis a oedd yn byw yn Rhydaman. Hefyd cofiwn at Wil ac Eleri ar golli ei chwaer.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Bleddyn Jones, Llysawel am gael ei wobrwyo'n 'Chwaraewr y Flwyddyn' a 'Players Player' Tîm Rygbi dan 14 oed Cwms Caerfyrddin 2010 – 11 a hefyd am gael ei ddewis i fod yn Gaptan ar gyfer tymor 2011-12.

Dewch i Gerdded

Ar nos Fercher, 13eg Ebrill gyda chymorth Cerddwyr Cymru, cynhaliwyd cyfradod yn y pentref i drefnu cyfres o deithiau cerdded yn ardal Llanybydder a Llanllwni. Teithiau cymedrol fydd y rhain, tua 3 neu 4 milltir o hyd ac yn defnyddio hawliau tramwy lleol. Bydd y teithiau yn addas i blant ac oedolion sydd â lefel ffitrwydd gweddol. Does dim angenrheidiwr o gwbl i ymuno â Chymdeithas Cerddwyr Cymru, felly mae'r teithiau lleol hyn

yn agored i unrhyw un sy'n dymuno dod am dro yn yr awyr agored! Ond cofiwch, dim cŵn, ac eithro cŵn tywys.

Daeth ugain o bobl ar y daith gyntaf ar nos Fercher, 4ydd o Fai i grwydro i fyni i goedwig y clychau glas Llwyrerwn a dychwelyd ar hyd fferm Llygasenwyn. Cymerodd y daith tuag awr a hanner a chafwyd amser ardderchog.

Hoffech chi ymuno â ni ar y daith nesaf? Cysylltwch â James Williams ar 01570 480743 neu Kay Davies ar 01570 480041.

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Clwb Cinio Gwragedd Llanybydder

Ar ddydd Mawrth y 3ydd o Fai ymwelodd y Clwb Cinio â llyfrgell Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbed. Diddorol oedd gweld y casgliad o drysorau'r byd llyfrau a Beiblau. Ar ddiwedd yr ymweliad aethpwyd i Westy'r Glyn Hebog i orffen tymor llwyddiannus iawn.

Mae'r clwb yn cwrdd yn fisol drwy'r gaeaf yn y 'Belle Vue' Llanllwni. Hoffai'r aelodau ddolch yn gynnes i Gwen Jones a Mair Evans am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd. Edrychwn ymlaen i ail ddechrau'r tymor ym mis Hydref.

Cydymdeimlad

Daeth ton o dristwch dros ardal eang pan glywyd am farwolaeth Mr Elwyn Davies, Fronlas. Adnabyddwyd ef fel 'Elwyn y Grader' ac roedd ei hoffter am gerddoriaeth yn amlwg iawn i bawb. Roedd bob amser yn mwynhau mynychu cymanfaoedd canu ledled y wlad ac roedd yr aelod ffyddlon o Gôr Meibion Cwmann. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.



Ar ddydd Sul y Pasg roedd ras Teifi 10, gyda chant dau ddeg ac un o redwyr yn cychwyn y ras o glwb rygbi Llambled, lan i Lanfair Clydogau, draw i Gellan ac yna nôl i'r clwb. Cafodd y ras ei noddi gan Dwr Llanllyr. Dewi Griffiths o Gaerfyrddin Harriers enillodd y ras mewn 50 munud 48 eiliad, 2il dynion agored Sam Pearcher Shilton Striders 57 munud 44 eiliad, 3ydd Andrew Reynolds Port Talbot Harriers 59 munud 21 eiliad. 1af dynion 40 Royston Whitehouse Neath Harriers 61 munud 10 eiliad, 2il d40 Michael Davies Sarn Helen 61 munud 44 eiliad, 3yd d40 Jonathan Jones Carmarthen Harriers 62 munud 31 eiliad, 1af dynion 50 Arwel Lewis Eryri Harriers 63 munud 53 eiliadau, 2il d50 Richard Marks 65 munud 24 eiliadau, 3ydd d50 Clifford Evans Aberystwyth Uni 65 munud 48 eiliad. Phoebe Webster Aberystwyth AC enillodd y ras i'r menywod agored 66 munud 59 eiliad, 2il Elizabeth Goodwin Jones Trots 73 munud 40 eiliad, 3ydd Amy Edwards Rhonda Valley Runners 74 munud 22 eiliad, 1af m35 Joanne Thatcher Aberystwyth AC 70 munud 9 eiliad, 2il Nicola Quinn Emlyn Runners 71 munud 21 eiliad, 3ydd Alison Hayes Les Croupiers 73 munud 48 eiliad. 1af m45 Dawn Kenwright Sarn Helen 72 munud 51 eiliad, 2il m45 Anita Worthing Aberystwyth AC 76 munud 11 eiliad, 3ydd m45 Del Eyre 3M Gorseionon 84 munud 31 eiliad. Sarn Helen enillodd y tîm Michael Davies, David Hooper, Glyn Price a Gethin Jones.

Nant Yr Arian oedd lleoliad Ras y Barcud Coch a Glyn Price yn gorffen yn yr unfed safle ar ddeg mewn awr a 25 munud 11 eiliad 14 Daniel Hooper awr 26 munud 35 eiliad, 50 Huw Price awr 39 munud 09 eiliad, 62 a 1af m55 Dawn Kenwright awr 42 munud 58 eiliad, a 90 Caryl Davies awr 55 munud 16 eiliad, Enillodd Dawn Kenwright y fedal aur yn y Deyrnas Unedig a Phrydeinig, a Glyn Price medal aur y Deyrnas Undedig a medal arian Prydain. Dydd Sul cystadlodd Ormond Williams a Gudrun Jones yn ras y diafol.

Ar ddydd Llun Gwyl y Banc Mis Mai cynhaliwyd ras hwyl Cwrtnewydd. Noddwyd y ras gan Laethdy Highmead. Jack Davey Carmarthen Harriers enillodd y ras 22 munud 28 eiliad, 2il dynion agored Dylan Lewis Sarn Helen 24 munud 19 eiliad, 3ydd Gethin Jones Sarn Helen 24 munud 47 eiliad, 1af d40 Glyn Price Sarn Helen 23 munud 44 eiliad, 2il d40 Michael Davies Sarn Helen 24 munud 43 eiliad, 3ydd d40 Chris Schroder 25 munud 32 eiliad. 1af d50 Richard Marks Sarn Helen 25 munud 32 eiliad, 2il d50 Gordon Orme Cardigan AC 27 munud 08 eiliad, 3ydd Mark Terry Trots 28 munud 12 eiliad. 1st menywod agored Gwen Morris Ingli Runners 29 munud 41 eiliad, 2il Caryl Davies Sarn Helen 31 munud 49 eiliad, 3ydd Rebecca Brace 32 munud 53 eiliad, 1af menywod 35 Ana O'Neill Pembs Harriers 26 munud 39 eiliad, 2il m35 Kyra Kirkham Rhedwyr Emlyn 31 munud 49 eiliad, 3ydd m35 Wendy Evans 35 munud 3 eiliad. 1af m45 Helen Willoughby Sarn Helen 34 munud 39 eiliad, 2il m45 Elen Page Sarn Helen 37 munud 2 eiliad, 3ydd m45 Jan Bell Pembs Harriers 41 munud 17 eiliad. Sarn Helen enillodd y tîm Glyn Price, Michael Davies, Dylan Lewis a Gethin Jones.

Gwynant Lewis Jones enillodd y ras plant 3000 medr dan 18 oed mewn 11 munud 23 eiliadau, 2il Llyr ab Einion Aberystwyth AC 13 munud 34 eiliad, 3ydd Carwyn Davies ysgol gyfyn Llambled 14 munud 43 eiliad. Caitlin Page o Sarn Helen yn gorffen yn gyntaf yn ras y merched 12 munud 41 eiliad, 2il Ffion Quan Sarn Helen 12 munud 48 eiliad, 3ydd Luned Jones ysgol gyfun Llambled 17 munud 09 eiliad.

Cystadlodd pum deg naw o blant yn y ras dan un-ar-ddeg oed, Aled Sion Jones Aberystwyth AC enillodd mewn 6 munud 14 eiliad, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 6 munud 28 eiliad, 3ydd Daniel Lewis Sarn Helen 6 munud 29 eiliad. Y ferch gyntaf oedd Grace Page 6 munud 37 eiliad, 2il Rachel Priddey Sarn Helen 6 munud 46 eiliad, 3ydd Catrin Thomas Trelech 7 munud 24 eiliad. 1af Merch ysgol Cwrtnewydd Cery Polloch 7 munud 43 eiliad, 2il Catrin Schroder 8 munud 39 eiliad, 3ydd Lois Mai Jones 8 munud 42 eiliad, 1af bachgen Arwel Williams 7 munud 46 eiliad, 2il Owen Schroder 7 munud 53 eiliad, 3ydd Carwyn Davies 9 munud 5 eiliad.

Dydd Sul diwethaf roedd ras Sarn Helen 16.5 o filltiroedd. Noddwyd y ras gan Simon Hall, Cigydd Jones Bros, Stryd y Coleg Llambled, Diolch i'r clybiau rygbi a phêl-dored, am fenthyg yr adeiliadau, ac i'r ffermwyr lleol am gael mynd drwy eu caeau. Y tri rhedwr cyntaf nôl oedd o dîm Port Talbot, 1af Steve Rees awr 46 munud 38 eiliad, 2il a 1af d40 Christ Parker awr 51 munud 32 eiliad, 3ydd a 2il dynion agored Andrew Reylandold awr 52 munud 27 eiliad, 3ydd dynion agored Mike Evans TROTS awr 54 munud 04 eiliad, 2il d40 Glyn Price Sarn Helen awr 53 munud 51 eiliad, 3ydd d40 Michael Davies Sarn Helen awr 57 munud 36 eiliad. 1af d50 Dave Powell Aberystwyth AC 2 awr 04 munud 47 eiliad, 2il d50 Rob Falconer 2 awr 12 munud 08 eiliad, 3ydd d50 Mike Jones 2 awr 17 munud 16 eiliad. Phoebe Webster Aberystwyth AC enillodd y ras menywod agored 2 awr 11 munud, 2il menywod agored Caryl Davies 2 awr 34 munud 01 eiliad, 1af m45 Sandra Pinkham 2 awr 12 munud 41 eiliad, 2il d45 Lon Morgan Emlyn Runners 2 awr 38 munud 09 eiliad, 3ydd Sue Lloyd Pembrokehire Harriers 2 awr 40 munud 11 eiliad, 1af m35 2 awr 13 munud 03 eiliad, 2il m35 Louise Barker Aberystwyth AC 2 awr 14 munud 59 eiliad, 3ydd m45 Nicola Quinn Emlyn Runners 2 awr 17 munud 44 eiliad. Port Talbot Harriers enillodd y tîm Steve Rees, Chris Parker, Andrew Reynolds, Gareth Ayres. Enillodd Caryl Davies y cwpan challenge Patterson.

Ras y plant dan 11 1af Aled Sion Jones Aberystwyth AC 12 munud 21 eiliad, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 13 munud 27 eiliad, 3ydd Daniel Lewis Sarn Helen 13 munud 34 eiliad, Merched 1af Ceris Olwen Davies Carmarthen Harriers 12 munud 22 eiliad, 2il Mared Owen Carmarthen Harriers 13 munud 12 eiliad, 3ydd Rachel Priddey Sarn Helen 14 munud 27 eiliad. Ras ysgol Uwchradd cyntaf Caitlin Page Sarn Helen 12 munud 42 eiliad, 2il Lleucu Ifans Sarn Helen 21 munud 29 eiliad. Bechgyn 1af Iwan Evans Sarn Helen 14 munud 13 eiliad. Ar ôl y ras aeth Caitlin Page i Gaerfyrddin i gystadlu ras 1500 medr ar drac gorllerwin Cymru a gorffennodd yn y pumed safle mewn 5 munud 31 eiliad.

Bydd ras nesaf y clwb yn ysgol Felin Fach ar Mehefin 24. Ras y plant 6.30yh a'r oedolion 7.30yh.

Llanfair Clydogau

Parti'r Briodas

Ar ôl i bawb cael cyfle i wyllo priodas William a Catherine ar y teledu, daeth llawer o bobol a phlant y pentref ynghyd i'r neuadd i fwynhau te parti arbennig, gyda phawb wedi cyfrannu rhywbeth tuag at y wledd arbennig. Penderfynwyd gwneud y parti o dan do gyda phabell y tu allan i'r rhai oedd yn dewis mwynhau yr awyr agored. Achlysur pleserus a llwyddiannus dros ben.

Diolch i bawb a fu yn paratoi ymlaen llaw ac a fu yn helpu ar y dydd. Diolch hefyd i Mr Spooner, Yr Allt, am fenthyg a chodi y babell. (Llun ar y dudalen flaen).

Cinio

Ar nos Wener, Mai 6ed, cynhaliwyd cinio blynyddol pwyllgor pentrefi Llanfair a Chellan. Aeth tua deg ar hugain ohonom mewn bws i Fantasy Farm, ger Llanrhystud lle cawsom groeso arbennig a bwyd bendedig.

Diolch i Dai Jones, Llanfair Fach am drefnu noson mor hwylus.

Helfa Drysor Car

Ar nos Wener, Mai 13eg, trefnwyd noson helfa drysor gan enillwyr y llynedd, sef Julian a Jane Branston, Fach Ddu. Daeth digon ynghyd i lenwi 9 car ac o bob sôn fe gafwyd noson frwdfrydig dros ben. Enillwyr eleni oedd Linda a Laurence Quelch a Katy a David James mewn un car a Catrin Medi Hughes, Owain Pugh a Daniel, Gwyngod Fach, Tregaron yn y car arall ac yn rhannu y wobr. Daeth y noson i ben yn nhafarn Cwmann gyda phryd o fwyd blasus iawn a phawb wedi mwynhau.

Crefftiau, Cynnyrch a Chist Car Misol

Mae'r achlysur yma yn dal i fynd ymlaen ac yn denu llawer i werthu, prynu a chymdeithasu dros baned o de. Mae'r fenter yn ei phumed mis a disgwylir iddo barhau trwy gydol yr haf o leiaf. Croeso i bawb ddod i werthu a phrynu.

Beth sydd nesaf?

10fed a 11eg Mehefin - Gŵyl Gwrw a Barbiciw; 30ain Gorffennaf - Ffêt y Pentref; 14 eg Awst - Reidio Beic.



Llun ar y dudalen gefn

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Drefach a Llanwenog



Dyma lun o ddisgyblion Ysgol Llanwenog gyda Ficer Suzy Bale wedi cynnau y gannwyll sydd ar daith o amgylch Ysgolion Eglwysig Cymru.

C.Ff.I Llanwenog

Ar ddechrau mis Mai cynhaliwyd ein Helfa Drysor blyneddol. Braff oedd gweld nifer o aelodau a ffrindiau'r clwb wedi dod yng nghyd i roi tro ar yr Helfa Drysor a oedd wedi ei pharatoi gan Byron ac Alwena Williams. Ar ôl crwydro ar hyd nifer o heolydd bach plwyf Llanwenog, braff oedd dychwelyd am bryd o fwyd yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Geraint Hatcher a Paul Jones ddaeth i'r brig a llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ar nos Fercher 4ydd o Fai aeth mwyafrif o aelodau'r clwb i gystadlu yn chwaraeon y sir a gynhaliwyd ar dir Ysgol Gyfun Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i dîm y rownderi ac i dîm pêl-rwyd dan 26 am ennill eu cystadlaethau.

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder dan ofal Jack Jenkins. Cafodd yr aelodau gyfle i ddysgu sgil newydd. Erbyn diwedd y noson roedd pawb wrthi'n hyderus gyda'u cardiau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dwynwen Davies, Bryndolau, Brynteg, ar dderbyn gradd M.A. Celf mewn Addysg.

Damwain

Gobeithio erbyn hyn fod Jac Evans, Cledlyn View sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Athrofaol, Caerdydd yn well ar ôl ei ddamwain yn ddiweddar. Rydym fel ardal wedi bod yn meddwl amdanat a gobeithio y byddi nôl ar dy draed yn gloi.

Diolch

Dymuna Liz Mills ddiolch o galon i'r llywodraethwyr, staff, rhieni, plant a ffrindiau Ysgol Llanwenog am y dysteb, y llun, anrhegion a'r cardiau dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch hefyd am y noson ffarwelio arbennig. Braff oedd

gweithio mewn ysgol mor hapus, cartrefol a chefnogol.

Eglwys Santes Gwenog

Diolch am y rhoddion blodau a dderbyniwyd ar gyfer Y Pasg, ac i'r gwragedd fu wrthi yn addurno'r Eglwys ar gyfer yr Wyl. Diolch hefyd i'r ficer, y Parch. Suzie Bale am ei neges bwrpasol.

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg yr wythnos ganlynol; Ail-etholwyd y Prif swyddogion, sef Warden y Ficer – Mr Keith Goodall; Warden y Bobl – Ms Nia Evans; Trysorydd – Mrs Lynne Goodall; Ysgrifennydd y cofnodion – Keith Goodall. Derbyniwyd y fantolen ariannol, a diolchodd y Ficer i bawb am eu llafur, ac am y croeso a'r gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel 'Offeiriad dan ofalaeth' yn y Tair Eglwys.

Ar y 12fed Mehefin, bwriedir cynnal oedfa arbennig i ddathlu sefydlu'r Llang Brydeinig, sy'n 90 oed eleni.. Nid yw'r trefniadau wedi eu llwyr gwblhau eto, ond mae croeso cynnes i bawb ymuno ac i gefnogi'r mudiad ar y noson. Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Cynhelir noson gwis ar Fedi'r 9fed. Timau o 4 a lluniaeth ysgafn am £5. Dewch i fwynhau noson o gymdeithasu.

Llongyfarchiadau i deulu Gwêl-y-Dyffryn ar enedigaeth mab, wŷr, a gor-wŷr, - Osian Jac. Pob bendith arnynt fel teulu.

Cynhaliodd Sefydliad y Merched noson o adloniant yn yr Eglwys yng nghwmni Côr Lleisiau'r Werin. Gwahoddwyd pum cangen arall i ymuno â hwy, a chafwyd orig hwylus yn gwrando ar y canu, a'r Ficer Suzie yn canu'r Delyn. Mwynhawyd lluniaeth bendigedig wedi ei baratoi gan Gangen Llanwenog.

Nos Fawrth, Mehefin 28ain bydd Esgob Tyddewi, Y Gwir-

Barchedig Wyn Evans, yn derbyn aelodau newydd i'r Eglwys mewn gwasanaeth arbennig y Confyrmasiwn. Croeso cynnes i bawb, a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Dymuniadau gorau i Jim Evans, Frowen, a Mair Davies, Highmead Cottages, sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Jac, mab Nia Evans, Vale of Cledlyn fu mewn damwain ddrwg yn ddiweddar. Deallir ei fod yn ymateb yn dda i'r driniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerdydd. Brysia wella Jac, mae pawb yn gweld dy eisiau.

Cydymdeimlwn yn ddwys â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Y Gymdeithas Hŷn

Trip i'r gogledd oedd hi ym mis Mai, - i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Aros yng Nghorris am banded, a chyrraedd Llanberis ychydig cyn 1 o'r gloch. Diddorol oedd dilyn ffilin yn olrhain hanes y chwareli, a'r amodau gweithio yno. Rhes o dri thy yn dangos sut y bu gwelliant yn amgylchiadau byw bob dydd y teulu dros rhyw drigain mlynedd, a'r Olwyn ddŵr, - y mwyafrif yn y byd yn ôl a glywyd, - yn rhyfeddod i'w gweld yn dal i droi.

Cafwyd cyfle i weld un o'r gweithwyr yn hollti'r llechen, yn dangos sut roedd yn cael ei thorri i'r maint cywir, ac yn sôn am y gwahanol maintioli i'r llechi. Rhoddodd braslun o fywyd a gwaith y chwarelwr, ac am y peryglon a'r damweiniau a ddigwyddai'n aml. Gwelwyd hen beiriannau'r safle, y cyfan yn cael eu troi gan yr Olwyn fawr.

Wedi gadael Llanberis, teithiwyd i fyny tuag at Pen-y-pass, gan weld yr Wyddfa'n glir, ac yna i lawr am Flaenau Ffestiniog, - a'r tomenni rwbel yn ail-ddweud beth a glywyd

eisioes.

Nôl i Rydypennau am swper blasus, a phawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Bydd y daith nesaf yn mynd i Sain Ffagan ar yr 8fed o Fehefin. Enwau i Yvonne 480590.

Ysgol Llanwenog

Rydym fel ysgol yn meddwl am Jac Evans a'i deulu. Ar hyn o bryd mae Jac yn derbyn gofal yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Rydym yn gweld eisiau ei wên yn fawr iawn yn yr ysgol. Cofion cynnes at y teulu i gyd oddi wrth pawb o Ysgol Llanwenog.



Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

- * Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
- * Bwffe mawr neu fach
- * Danteithion i de
- * Pwdinau
- * Arlwy ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

O geiniog i geiniog y tro'r arian yn bunt



Beth yw pensiwn?

Dull o gynilo arian er mwyn sicrhau incwm pam fyddwch yn ymddeol yw pensiwn. Bydd hwn yn incwm ychwanegol i bensiwn y Wladwriaeth. Yn aml bydd cyflogwr yn trefnu pensiwn ar eich rhan, ond os nad ydynt, neu os ydych yn hunan gyflogedig neu am greu cronfa ychwanegol yna gallwch wneud hyn yn bersonol hefyd.

Pam bod angen pensiwn?

Yn bresennol mae pensiwn y Wladwriaeth yn darparu £102.15 yr wythnos, sef £5,311.80 y flwyddyn. Felly gyda chostau byw yn cynyddu mae'n amlwg bod angen pensiwn personol. Os ddechreuwch gynilo £50 y mis o 20 mlwydd oed bydd hyn yn swm o £27,000 erbyn byddwch yn 65 mlwydd oed. Pe baich yn gosod yr arian yma mewn cronfa bensiwn sydd yn tyfu ar gyfartaledd o 7% y flwyddyn (gan ystyried fod y farchnad stoc wedi tyfu ar gyfartaledd 8% y flwyddyn dros y 80 mlynedd diwethaf), bydd eich cronfa pensiwn werth £190,000 erbyn byddwch yn 65. Felly cynharaf y gwnewch ddechrau y mwyaf o gyfle bydd i'r buddsoddiad tyfu.

Pwy sy'n talu?

Os bydd eich cyflogwr yn trefnu pensiwn ar eich rhan, fe fyddan hefyd yn cyfrannu canran i'ch pensiwn fel cyfraniad cyflogwr. Gallwch chi hefyd gyfrannu trwy wneud cyfraniadau gweithwyr neu trwy wneud cyfraniadau personol i bensiwn personol fel y mynnwch. Am bob cyfraniad y gwnewch chi mi fydd y llywodraeth yn ychwanegu 20% at eich cyfraniad, gelwir hyn y rhyddhad treth. Felly, er enghraifft, os gwnewch fuddsoddi £200, bydd y llywodraeth yn ychwanegu £50 i'r gronfa. Bargen!

Beth sy'n digwydd i'ch arian?

Chi sydd mewn rheolaeth o'ch cronfa pensiwn. Bydd cynnydd eich cronfa yn dibynnu ar faint eich buddsoddiad, ble mae wedi'i fuddsoddi ar lefel o risg chi'n cymryd. Gallwch newid lefel eich cyfraniadau unrhyw bryd a ble yr hoffech ei fuddsoddi. Gall werth eich buddsoddiad gynyddu a disgyn yn ôl newidiadau yn y marchnadoedd ariannol, ond beth sy'n bwysig yw beth fydd gwerth y gronfa pam fyddwch yn ymddeol.

Faint i gynilo?

Bwriad mwyafrif yw ymddeol ar incwm gwerth dwy ran o dair o'i gyflog diwethaf cyn ymddeol. Beth sydd angen ystyried yw faint o incwm fydd ei angen gan gofio byddwch wedi talu eich morgais a bydd y plant wedi gadael adref.

Un rheol i gofio yw cymryd eich oedran a'i haneri. Dyma'r canran o'ch cyflog fydd angen i chi gynilo; er enghraifft, bydd angen i berson 32 mlwydd oed gynilo 16% o'i gyflog yn flynyddol tan ei ymddeoliad.

Cofiwch gysylltu gyda'ch cynghorydd ariannol i sicrhau bod eich ymddeoliad yn un gyfforddus.

Testun trafod mis nesaf: Cynilo

Gan Beca Russell, Cynghorwr Ariannol Annibynol gyda Cyfri Cyfyngedig

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Caerfyrddin a Chaerfyrddin-fach

Fe'n hysbysir ar yr arwyddbost sy'n ein croesawu i dref Caerfyrddin mai dyma dref hynaf Cymru. Ond yr elfennau yn enw Brythonig y gaer Rufeinig Maridunum neu Moridunum (2il ganrif) a oedd ar y safle hon, fydd yn cael sylw yn yr ysgrif hon. Dyma'r ffurfiau a roes erbyn heddiw 'môr' a 'din', a'r elfen 'din' yn dynodi caer neu dref. Ystyr Moridunum, felly, yw 'caer neu dref ger y môr'.

Datblygodd yr elfennau 'môr' a 'din' yn Myrddin a phylodd arwyddocâd yr elfen -(d)in; tyfodd 'caer' o'i flaen gan roi yn y pen draw y ffurf sy'n gyfarwydd i ni erbyn hyn sef, Caerfyrddin.

Yn y ffurf Caerfyrddin, camddehonglwyd yr ail elfen fel enw person a dyma ddechrau cysylltu Myrddin, dewin Arthur, â'r dref ar lan Tywi ac â'r hen goel am y dderwen. Cyflwynwyd Myrddin yr arwr o'r chweched ganrif i'r chwedlau am Arthur gan Sieffre o Fynwy (c. 1090-1155); Sieffre a ladineiddiodd Myrddin yn Merlinus.

Dyna mewn dynnaid o frawddegau annigonol, hanes datblygiad yr enw Caerfyrddin, 'tref Myrddin'.

Mae pob un ohonom yn hollol gyfarwydd ag Eglwys Sant Pedr ac â hen safle Priordy Sant Ioan yn nhref Caerfyrddin. Llai cyfarwydd yw enw'r hen eglwys wreiddiol o fewn muriau'r hen gaer Rufeinig Moridunum, sef Llandeulyddog sy'n coffâu sant cynnar iawn a gydoesai â Dewi a Phadarn. Mae llawer yn honni mai'r un person oedd Teulyddog a Teilo ac iddo symud i fyny dyffryn Tywi a sefydlu canolfan yn Llandeilo.

Yn ôl traddodiad aeth Dewi, Padarn a Theilo ar bererindod i Jerusalem. Cawsant groeso anrhydeddus gan y Patriarch a'u dangos i ystafell arbennig. Fe'u dilynwyd i'r ystafell gan dorf enfawr a oedd yn awyddus i weld beth oedd yn digwydd. Yng nghanol yr ystafell roedd tair cadair: cadair aur, cadair arian a chadair bren. Gofynnodd y Patriarch i bob un o'r ymwelwyr ddewis cadair.

Eisteddodd Dewi yn y gadair aur gan ddweud mai ef oedd y pwysicaf o'r tri. Dewisodd Padarn y gadair arian gan ddweud ei fod yn gweddu i ansawdd ei lais canu ariannaidd. Aeth Teilo at yr unig gadair a oedd ar ôl. Wrth iddo eistedd cafodd gymeradwyaeth gan y dorf. Eglurodd y Patriarch mai dyma'r gadair a ddefnyddiai Iesu pan fyddai'n dysgu yn y Deml.

Diflannodd pob sôn am Llandeulyddog erbyn hyn a dylanwad y Normaniaid, mae'n siwr, a barodd i'r eglwys gael eu chysegru'n ddiweddarach i Bedr.

Ger Cilcennin yng Ngheredigion, ceir Caerfyrddin-fach a'r ansoddair 'bach' wedi ei ychwanegu er mwyn gwahaniaethu'n glir rhyngddi â thref Caerfyrddin.

Mae Cilcennin hefyd yn enw diddorol. Mae'r eglwys wedi'u chysegru i'r Drindod Sanctaidd. Mae amryw hynafiaethwyr wedi ceisio cysylltu'r enw â seintiau megis Cenwyn, Cannen a hyd yn oed â sant o'r enw Cennin nad oes cofnod o gwbl amdano. Llifa Nant-y-drindod gerllaw'r eglwys yng Nghilcennin. Lloches neu gilfach yw ystyr 'cil' a chyfeiria 'cennin' at y llysieuyn adnabyddus o'r enw hwnnw sy'n gynhwysyn hanfodol mewn cawl traddodiadol.

Erbyn i'r rhifyn nesaf o CLONC ymddangos, bydd llawer ohonom yn dechrau paratoi am yr ymweliad blynyddol â'r Sioe Fawr yn Llanelwedd ym Mhowys. Enw'r sir honno a gaiff ein sylw y mis nesaf.

Bydd o ddiddordeb i ddarlennwyr y golofn hon wybod am gynhadledd ar enwau lleoedd a gynhelir ar 1 Hydref yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cewch ragor o fanylion mewn da bryd.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngror a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merchod.

Cellan, Llambed

01570 422895

Llanllwni



Mae'r ddelwedd a gyhoeddir yma wedi esgor ar drafod brwd ymysg aelodau Grŵp Achub Mynydd Llanllwni. Am y tro cyntaf dyma allu dangos yn glir ar un ddelwedd yr effaith gynyddol a gaiff melinau gwynt a fwriedir ar gyfer Bryn Llywelyn, Gorllewin Brechfa ynghyd â'r rheini a godwyd eisoes ym Mlaen-gwen (Alltwalis). Seilwyd y ddelwedd ar lun a dynnwyd yn Llanfihangel-ar-arth ac mae'n dangos yn glir sut y byddai tirwedd rhan helaeth o ogledd Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddifwyno, pe caniateid eu codi. Mae'r cyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau ein cynghorwyr sir a'n cynllunwyr sirol yn fawr.

Erbyn hyn mae amheuan mawr wedi codi am effeithlonrwydd melinau gwynt sydd ar y tir wrth gynhyrchu ynni. Mae'r gofidau a achosir i drigolion yng nghyffiniau Blaen-gwen eisoes yn erchyll o real. Dangoswyd mai troi rhostir gwyllt Mynydd Llanllwni yn stâd ddiwydiannol, fyddai pendraw bwriad RES ar gyfer Bryn Llywelyn; ac ar ben hynny hefyd, ddyblygu'r gofidiau a amlygwyd eisoes yn ardal Gwyddgrug ac Alltwalis. Ychwanegu ymhellach eto at yr anawsterau a wna'i cymeradwyo cynllun Gorllewin Brechfa. Nid codi bwganod ynghylch safle unigol yw bwriad y ddelwedd, ond cyflwyno'r union sefyllfa'n onest a gweladwy - a hynny am y tro cyntaf. Rydym yn eu rhannu â phawb ac yn cynnig cyfle i bob perchen tŷ ym mhlwyf Llanllwni gael delwedd o'r hyn a welid o'r ardd gefn petai cwmni RES a'i debyg yn cael tragwyddol hewl.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad treisiol cwmni RES. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk

Ysgol Llanllwni

Croeso i Mrs Heulwen Evans atom. Mae Heulwen yn fyfyrwraig yng ngholeg Ceredigion ac yn dod atom bob yn ail wythnos am gyfnod fel rhan o'i chwrs Addysg Gofal Plant. Croeso hefyd i Miss Caryl Richards sydd yn fyfyrwraig yng ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Mae Caryl ar ei blwyddyn gyntaf ac wedi dod atom ar brofiad ymarfer dysgu yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio eich bod eich dwy yn mwynhau yn ein plith. Croeso hefyd i ddisgyblion newydd sef Grace Harris a Seren Orr sydd wedi dechrau yn nosbarth y babanod a Hannah Jones sydd wedi ymuno â Blwyddyn 3. Mae'r tair wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn.

Trefnwyd prynhawn hwylus yn ddiweddar er mwyn codi arian i R.S.P.C.A. Buom yn chwarae gemau bwrdd, prynu o'r stondin bric a brac, raffl ac enwi'r tegau meddal. Syniad rhai o ferched y dosbarth top oedd hyn. Codwyd £72 erbyn diwedd y prynhawn. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cynhaliwyd Gemau Potes yr Urdd Cylch Llanbed yn sied Clynmelyn, Llanllwni i blant blwyddyn 2 ac 1. Daeth 14 tîm i gystadlu a chafodd pawb amser da.

Mae Pwyllgor Rhieni ac Athrawon a Phwyllgor Cylch Meithrin yn trefnu Diwrnod Hwyl ar y 11eg o Fehefin ar Gaeau Glanafon lle bydd nifer o weithgareddau diddorol. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mai:- £10 – 3 – Mrs Mair Williams, 7 Bryndulais, Llanllwni. £5 – 225 – Aidran Thomas, Clyniau Tegfan, Pontweli. £2.50 – 23 – Tomos Thomas, 28 Bro Einon, Llanybydder. £2.50 – 180 – Mr Aidran Thomas, 5 Rhydybont, Llanybydder. £2.50 – 208 – Mrs Margaret Davies, Tegfan Garej, Llanllwni.

C.F.F.I. Llanllwni

Anodd credu bod blwyddyn arall wedi mynd heibio ac ar ddydd Sadwrn 7fed o Fai cynhaliwyd rali blynyddol C.F.F.I Sir Gâr ym Maes Sioe Nantyci, Caerfyrddin. Cafwyd diwrnod prysur iawn efo'r aelodau i gyd yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau. Braff oedd gweld Anwen Jones yn eistedd ar lwyfan y seremoni eleni fel Stocman Iau y Sir. Da iawn ti! Llwyddiant a gawsom yn y cystadlaethau barnu stoc. Cipiodd Anwen Jones ac Ifor Jones y cwpan am y safle cyntaf yn y gystadleuaeth barnu gwartheg Henffordd, ac fe ddaeth Anwen Jones a Sion Evans yn ail yn y barnu gwartheg godro. Carwyn Lewis a Sam Joynson daeth i'r brig yn y gystadleuaeth adeiladu BBQ. Y dasg yn y gystadleuaeth gwaith coed eleni oedd creu bwrdd adar, braff oedd gweld 3 tîm o'r clwb yn cystadlu ac fe ddaeth Aled Jones a Meryl Davies yn ail yn y gysatdleuaeth. Ar ddiwedd y dydd hyfryd oedd clywed bod y clwb yn eistedd yn y pedwrddydd safle allan o 16 o glybiau.

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol eleni yn Grannell, Llanwnnen ar Nos wener 20fed o Fai. Braff oedd gweld lluo o aelodau, rhieni a chefnogwyr yn cymdeithasu a dathlu llwyddiant y flwyddyn. Ein gwestai gwadd am y noson oedd Mrs Rhian Jones, Is-Gadeirydd y Sir. Anwen Jones gafodd ei hethol fel aelod y flwyddyn am 2010-2011. Llongyfarchiadau i ti!!

Diwrnod Hwyl

Mae yna groeso i chi ddod i ymuno yn yr hwyl a'r sbri yng Nghae Glanafon (tu cefn i'r Belle Vue) ar yr 11eg o Fehefin 2011. Bydd y diwrnod yn cychwyn am 11.30 ac yn gorffen gyda gêm o rownderi a chriced tua 4yh. Bydd Sali Mali yno i ddarlenn storïau

a chael cân gyda'r plant a bydd sesiynau celf a chreffft, drymio Affricanaidd, a sgiliau syrcau ar gael – felly dewch draw i gael tro. Yn ogystal â'r gweithgareddau yma fydd yna hefyd Gastell Bownsio, Twba Lwcus, lluniaeth ysgafn a gwahanol stondinau yn cynnwys cacennau a chyfle i gael eich gwyneb wedi peintio. Bydd Twf a Menter Gorllewin Sir Gâr yn bresennol. Llwyddion y dydd yw Tom a Ray Harries Castlevue (Maesnonni gynt). Rhennir elw'r dirwnod rhwng Ysgol Feithrin Llanllwni ac Ysgol Gynradd Eglwys Llanllwni.

Cadw'n heini

Cofiwch am ddosbarthiadau cadw'n heini gyda J's Workout yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni bob nos Wener am wyth o'r gloch.

Alltyblaca

Penblwydd arbennig

Dathlodd Mrs Joan Lewis, Tegfryn ei phenblwydd yn 80 oed yn ystod mis Mai. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod.

Cydymdeimlad

Daeth ton o dristwch dros yr ardal wrth glywed am farwolaeth Derrick Price Jones, Dorlan, yn ysbyti Singleton Abertawe, yn 72 oed. Cydymdeimlwn â'i briod Jean, ei ferch Shân a'i phriod Richard ac â'r wŷrion, Ffion a Bledwyn, ac â gweddill y teulu. Wedi cyfnod byr yn dysgu yn Llundain dychwelodd i ddysgu yn ysgol y Dolau, Llanybydder hyd nes iddi gau. Roedd yn aelod gweithgar iawn yng Nghapel Alltyblaca ac yn un o weithwyr dyfal 'Clone'. Gwelir ei eisau yn fawr.

Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad. Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes, Llanwnnen SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn

10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

Llanbedr Pont Steffan

Adroddiad Adran yr Urdd, Ffynnonbedr

Unwaith eto mae aelodau'r Adran wedi derbyn llawer iawn o gyfleoedd i ddatblygu amryw sgil newydd ac mae llawer iawn o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar eu cyfer yn ystod Tymor y Gwanwyn. Yn gyntaf aeth yr aelodau i ymweld ag adran y cyfryngau yn y Brifysgol a diolch i Geraint am ein tywys o gwmpas ac am esbonio sut oedd popeth yn gweithio. Hefyd cafodd yr aelodau gyfle i ddysgu am Gymorth Cyntaf o dan arweinyddiaeth Michael o Felinfach. Cafodd bawb gyfle i ymarfer rhwymo a dysgu am y camau sylfaenol Cymorth Cyntaf. Yna daeth Ffion Dalton i gyflwyno cwis a chafodd pawb llawer o hwyl wrth ateb y cwestiynau. Cyn y Pasg trefnodd Dawn Evans noson o grefft a gweithgareddau Pasg. Roedd hi wedi paratoi llawer o gyfleoedd i'r aelodau liwio, torri a gludio cwningod a chywion ar gyfer yr Ŵyl. Cawsom brofiadau arbennig wrth berfformio yn yr Eisteddfod Gylch a Sir a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Elin, Rhiannon a Janet am roi o'u hamser a hefyd diolchiadau i Lois am gyfeilio.

Merched y Wawr

Aeth Merched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch i ymweld â Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb, Llandysul ym mis Ebrill. Cawsom ein croesawu i'r Ganolfan gan Mrs. Rhian Jones sydd yn gweithio yno fel Technegydd Bwyd. Yn gyntaf cafwyd cyflwyniad ganddi yn y Dderbynfaf gan ddefnyddio cyfrifiadur i arddangos cefndir a phwrpas y Ganolfan. Cafodd ei sefydlu gan Gyngor Sir Ceredigion yn 1996 fel canolfan technoleg bwyd. Mae'r Ganolfan yn cynnig cyngor a gwasanaeth ymgynghori a thechnegol ar gyfer busnesau newydd, Busnesau Bach a Chanolig a gwneuthurwyr bwyd. Mae ganddi hefyd ran strategol i'w chwarae o ran cynnig cymorth technegol i ddiwydiant bwyd Cymru. Yn 2001, fe agorwyd Adeilad Ymchwil a Ddatblygu gyda chymorth ariannol o Gynllun Her Cyfalaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd wedi buddsoddi mewn brandio bwydydd o Gymru a chodi ymwybyddiaeth o'u hansawdd yng Nghymru a ledled Ewrop. Ar ôl y cyflwyniad cafodd yr aelodau wisg las i wisgo i sicrhau glendid cyn cael eu tywys gan Rhian o amgylch y gwahanol ystafelloedd prosesu a pharatoi bwyd. Wrth i Rhian dywys yr aelodau yn dyrfa fach las drwy'r ystafelloedd, gwelsom y gwahanol brosesau o gynhyrchu a pharatoi gwahanol bwydydd, sydd yn cael eu cynnig i'r busnesau gan y Ganolfan. Roedd ymweld â'r Ganolfan yn ddiddorol iawn ac yn agoriad

llygaid i'r broses o gynhyrchu a pharatoi bwydydd ym myd busnes. Fe ddiolchodd Mrs. Ann Evans croesawraig y noson i Rhian am y croeso cynnes a dderbyniwyd ganddi hi i'r Ganolfan ac am dywys yr aelodau o amgylch, gan roi eglurhad da am y gwahanol ffyrdd o gynhyrchu a pharatoi bwydydd sydd ar gael yn y Ganolfan i hybu busnesau i ddechrau yn yr ardal. Dywedodd Ann bod y Ganolfan yn rhoi cyfle i fusnesau gyrraedd safon uchel o gynhyrchu bwydydd, a'i bod hi'n braf iawn i glywed bod rhai ohonynt wedi cael eu gwobrwyo gan 'Gwir Flas Cymru' a sefydliadau eraill. Wedi gadael y Ganolfan aeth yr aelodau yn ôl i Westy'r Grannell, yn Llanwnnen i gael bwyd. Cafwyd cyfarfod byr. Rhoddodd Ann Evans ddiolch i Westy'r Grannell am y croeso a'r bwyd blasus. Rhoddodd y Llywydd Mary, longyfarchiadau i Ann Evans a'r teulu ar enedigaeth eu wyres fach newydd, Myfanwy. Hefyd llongyfarchodd Eryl a Pat am ennill cystadleuaeth Dominos yn y chwaeraeon rhanbarth a dymunwyd yn dda iddynt yn yr gystadleuaeth genedlaethol ym Machynlleth. Cydymdeimlwyd â Mair a Dilwen ar farwolaeth eu brawd Cliff. Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Jan am y cardiau a'r blodau a dderbyniodd hi wrth yr aelodau. Cyhelir ein Taith Ddirgel nos Lun 13 Mehefin. Pawb i gwrdd ar y Rookery am 6 o'r gloch.

Gyrfa Chwist Cartref Hafan Deg

Ar 27ain o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn- Dynion, 1af, Gwendoline Davies, Llanwnnen. 2il, Gwendoline Jones, Llanybydder. 3ydd, Ray Jenkins, Llanybydder. Merched, 1af, Mary Davies, Cwmsychpant. 2il, Catrina Davies, Aberaeron. 3ydd, Nancy Davies, Llambled. Carden Miniature Dynion- Edward Lockyer, Llambled. Carden Miniature Merched- Sara Humphreys, Alltyblaca. Bwrw Allan, Enillwyr- Peter Jones, Llambled a Catrina Davies, Aberaeron. Ail- Mai Williams, Tregaron a Sara Humphreys, Alltyblaca. Enillwyr 11 o Fai fel a ganlyn- Dynion; 1af Harry Williams, Ystrad Aeron. 2il Peter Jones, Llambled. 3ydd Mai Williams, Tregaron. Merched; 1af Ruth Davies, Tregaron. Cydradd 2il Iorwerth Evans, Llanybi, Sara Humphreys, Alltyblaca a Lil Thomas, Ffostrasol. Carden Miniature; Dynion, Gwendoline Davies a Peggi Davies. Merched, Mary Davies, Maesnewydd. Bwrw Allan; Enillwyr- Margret Phillips, Tregaron a Brian James, Trelech. Ail- Maggie Vaughn, Felinfach ac Ifan John Jones, Felinfach.



Un o dri pharti Aelwyd Llambled a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd ac a fydd yn cystadlu yn y Genedlaethol yn Abertawe.

Diolchodd y trefnydd Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth. Bydd Gyrfaedd Chwist Mis Mehefin ar Nos Fercher 8fed a 22ain. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs. Phyllis Smith O.B.E ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y blodau, yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn. Diolch o galon i chi gyd am eich dymuniadau da.

Brondeifi

Cydymdeimlir yn ddiffuant ag Arthur Roderick, Dilwen a'r teulu i gyd ar farwolaeth brawd Dilwen, Mr Cliff Thomas (Trehelyg), yn ddiweddar.

Hefyd estynir cydymdeimlad â theulu y diweddar David Davies (Glanyrannell gynt) a fu farw ym Mis Ebrill. Roedd wedi cadw cysylltiad agos â Brondeifi ac yn mynychu'r gwasanaethau pan fyddai yn yr ardal.

Bu farw ewythr i Heini Thomas, Pentrebach ym Mis Ebrill a chydymdeimlir yn fawr â hithau a'i theulu hefyd yn eu galar.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ioan Wyn Evans yn ei swydd newydd fel un o dîm Materion Cyfoes y BBC.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Lisa Moore ar ennill ysgoloriaeth i astudio yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ac i Heini Thomas Tŷ Hathren ar ei llwyddiant mewn arholiad piano yn ddiweddar.

Newyddion da hefyd oedd clywed am ddyweddiad Rhidian Huw a Louise. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt hwythau hefyd i'r dyfodol.

Mae Aneurin a Gareth Jones wedi bod yn brysur yn glanhau y maes parcio a Delyth Jones, Ffosyffin wedi bod yn gyfrifol am drefnu gweithwyr i lanhau y mwswg, dail ac yn y blaen oddiar y llwybrau tu cefn a blaen y capel. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith ac i Heini a Steffanie am eu ymroddiad arbennig gyda'r plant yn yr Ysgol Sul.

Dymuniad Cymdeithas Capeli Cymru, sydd yn teithio i wahanol ardaloedd o fewn Cymru rhyw dair gwaith y flwyddyn, oedd ymweld â Llambled ar y 14eg o Fai gan ddymuno ymweld â chapel Brondeifi fel un o'u dewis lefydd. Croesawyd hwy yn gynnes iawn gan y Parch Goronwy Evans gan roi braslun o hanes yr Achos, codi ac ail-godi'r capel a'i chyn-weinidogion. Diddorol oedd deall fod un o ddisgynyddion teulu'r Parch Rees Cribyn Jones sef Mrs Eironwy James ymysg yr ymwelwyr. Cyn mynd ymlaen a'u pererindod trodd pawb am y festri i fwynhau cwpanaid, brechdannau a chacennau blasus wedi eu paratoi gan Mrs Delyth Jones a Heini Thomas gyda rhai o wragedd y capel yn helpu gyda'r gweini.

Blin deall fod Bert Moore wedi derbyn llaw-driniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Pob dymuniad da am wellhad buan iddo ac i'r aelodau a chysylltiadau eraill hefyd sydd yn sâl naill a'i mewn ysbytai neu yn eu cartrefi.

Genedigaeth

Llongyfrachiadau i Carys a Dyfed Jones, Meneivia, Heol-y-Bont ar enedigaeth merch fach, Efa Lois.

80 oed

Yn ystod mis Mai dathlodd Mrs Vera James, y fron ei phen-blwydd yn 80 oed. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod. Iechyd da i chwi am flynyddoedd eto.

Diolch

Hoffai Caryl a Ben Herrick roi diolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Gwenno Elen ar Fawrth y 17fed.

Diolch

Dymuna Mrs. Eiryth Davies, Ardeifi, Stryd Newydd ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddi yn ddiweddar ar adeg colli ei phriod Dilwyn yn dilyn salwch byr. Gwerthfawrogir pob cymorth a charedigrwydd yn fawr iawn. Diolch

Llanbedr Pont Steffan

o galon i chi gyd.

Cymdeithas Hanes

Eric Williams yr Is-gadeirydd oedd wrth y llyw yng nghyfarfod mis Mai, a chroesawodd pawb, - aelodau'r Gymdeithas a nifer o aelodau Cerddwyr Llambled. Noson oedd hon i ddathlu 25 mlynedd o fodolaeth Cymdeithas y Cerddwyr, a chafwyd hanes sefydlu'r Gymdeithas honno gan Beverley Penney, - ysgrifennyddes gyntaf y Cerddwyr, a sydd wedi dal swydd genedlaethol gyda'r sefydliad ers hynny; Penny David a Phillip Lodwig. Roedd llawer o'r aelodau gwreiddiol yno yn y cyfarfod.

Trwy gyfrwng lluniau, gwelwyd yr hysbysebion cynnar i sefydlu'r gymdeithas, a nifer o'r aelodau ar yr amrywiol deithiau, - rhai lleol o gwmpas stâd Falcondale, Cwmnantyrarian, Dynefwr i enwi ond ychydig.

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas hon wedi cyflawni gwaith pwysig o agor hen lwybrau, codi pontydd a chamfeydd er budd y cerddwyr, cyhoeddi taflenni teithiau yma ac acw, a chyhoeddwyd llyfryn 'Llwybrau Llanbedr' yn y flwyddyn 2000.

Gan edrych ymlaen at y 25 mlynedd nesaf, gofynnodd Beverley Penney, a oedd yna syniadau ar beth yr hoffai pobl eu weld yn digwydd, a chafwyd ymateb da o'r llawr, a chryn drafodaeth dros 'paned o de. Diolchwyd i bawb gan David Lloyd ac Eric Williams.

Mae tymor y Gymdeithas Hanes yn dod i ben am eleni gydag ymweliad â Llanllŷr ar yr 21ain o fis Mehefin. Os nad ydych wedi rhoi eich henwau eisioes, cysylltwch â Penny David.

Dawnsio Gwerin y Byd

Yn ystod gwyliau'r Pasg bu Mair Long, gynt o Haulfryn, i Maesyllan, Llambled ynghyd â'i mab Steffan allan yn Palma, Mallorca yn cymryd rhan yng Ngŵyl Dawnsio Gwerin y Byd. Roedd dawnswyr yn cynrychioli nifer o wledydd yn cystadlu yn cynnwys Twrci, Armenia, Taiwan, India a llawer mwy. Roedd Steffan yn aelod o grŵp Adran Bro Taf, Caerdydd ac fe gyflawnodd y dawnswyr ifanc gamp aruthrol drwy ennill y wobwr gyntaf yn adran y plant. Roedd Mair yn cyfeilio ar y delyn fel rhan o'r band.

Profiad anhygoel oedd cystadlu yn yr Ŵyl a chael cyfle i fod yn rhan o'r orymdaith fawr a pherfformio ar hyd y strydoedd a hefyd i gymdeithasu gyda phlant a'u teuluoedd o bob cwr o'r byd. Bu'r wythnos yn un rhyfeddol a bythgofiadwy.

Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled

yn Noddfa ar Sul 15 Mai.

Pleser oedd croesawu yn ôl i'n harwain unwaith eto un sydd yn weithgar iawn yn ei chymuned sef Mrs. Elonwy Davies o Lanybydder. Llywydd oedfa'r plant oedd Mr. Eirian Morgan, Bethel Cwm Pedol a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Tomos Rhys a Teon o Noddfa. Mwynhawyd gwledd arbennig yng nghwmni'r plant gyda phob un yn rhoi o'u gorau glas ac yn ymateb yn rhagorol i ofynion yr arweinyddes er bod nifer ohonynt yn ifanc iawn. Hyfryd oedd gwrando ar ddatganiadau swynol unigol gan Lisa, Elan a Beca o Noddfa. I ychwanegu at hwyl y canu roedd Elonwy wedi dod ag amrywiaeth o offerynnau cerdd ganddi yn cynnwys tamborin, drwm, clychau ac yn y blaen ac roedd y plant wrth eu bodd yn eu defnyddio. Bu'r plant hefyd yn darllen yr emynau gan gyflawni eu gwaith yn hynod raenus a deallus iawn. Cafwyd eitem fach annisgwyl pan aeth Sion Ifan sydd ond yn dair oed am dro bach i'r pulpud ac er syndod i bawb dyma fe'n canu gan swyno pawb oedd yn bresennol.

Tro'r oedolion oedd hi yn yr hwyr i ganu mawl gyda nifer o ffrindiau wedi dod i gynorthwyo yn ôl eu harfer. Llywyddwyd gan Mrs. Myfanwy Bryce o Noddfa a bu Alwena a Llinos eto o Noddfa yn gyfrifol am y rhannau arweiniol. Er nad oedd rhif y cantorion yn uchel cafwyd canu gorfoleddus gyda'r côr a'r arweinyddes ar eu gorau. Mae Elonwy yn cyflawni ei gwaith mor gartrefol a di-ffws ac o ganlyniad mae'n derbyn ymateb brwdfrydig oddi wrth y cantorion.

Ar ddiwedd y Gymanfa talodd y Llywydd deyrnged uchel iawn i'r arweinyddes am ei chyfraniad clodwiw yn ystod y dydd, i Alwena a Llinos am ei gwasanaeth amhrisiadwy wrth yr organ, i'r cantorion o'r eglwysi lleol am eu cymorth mawr ac i bawb oedd wedi cymryd rhan yn ystod y dydd. Hefyd datganodd ddiolch haeddiannol i Emlyn a Janet am arwain rihysals yr oedolion a hefyd i Janet am baratoi'r plant eleni eto, ac yn olaf ond nid y lleiaf i Weinidog ac aelodau Noddfa am y croeso ac am drefnu lluniaeth ardderchog i bawb ac i Brondeifi am ddefnydd o'r festri.

Talodd yr arweinyddes ei diolch diffuant hithau i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig. Traddodwyd y fendith gan y Parch Jill Tomos.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â phawb sydd wedi dioddef profedigaeth yn ystod y mis.

Swydd Newydd

Mae Huw Evans, gynt o Haulfryn,

i Maesyllan wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Technegydd yn Theatr Felinfach. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Huw yn rhinwedd ei waith, wedi cael cyfleoedd gwych trwy ymweld â gwledydd amrywiol iawn yn cynnwys Awstralia, Hong Kong, De Korea, Latvia, Ffrainc, yr Eidal a Sbaen yn ogystal â'r Alban a'r Iwerddon.

Estynnir dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor nos Fawrth y trydydd o Fai. Roedd Janet wedi paratoi Helfa Drysor i'r aelodau o amgylch Ysgol Ffynnonbedr a Chysgod y Plas sef yr ardd wyllt. Bu'r tywydd yn braf a chafwyd llawer o hwyl yn chwilio am yr atebion. Roedd ambell un yn cerdded o gwmpas a'i lygaid ar gau!! Daeth Melissa, Carys a Lowri Elen i'r brig ym mlwyddyn 9 a'r enillwyr o blith yr aelodau iau oedd Morgan ac Ifan gyda'r lleill yn agos iawn. Diolchodd Geinor Medi i Janet am roi o'i hamser i drefnu'r noson. Roedd pawb wedi mwynhau gweithgaredd allan yn yr awyr agored.

Bu'r tymor yn un llwyddiannus a'r aelodau yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn cynnwys dawnio, chwaraeon a champau o bob math, gweithdy drama a sgleffrolio heb anghofio am eu llwyddiant wrth gystadlu yn yr Eisteddfod ym Mhontrhydfendigaid. Diolch yn fawr iawn i Geinor Medi a Janet yr arweinyddion am eu gwasanaeth gwerthfawr i'r Aelwyd ers blynyddoedd bellach a hefyd i'r rhai sy'n barod i gynorthwyo yn ôl yr angen. Bydd yr Aelwyd yn ail ddechrau ym mis Medi.

Clwb Clonc

Mehefin 2011

£25 rhif 470 :

Mrs Rowena Williams,
Maeslyn, Llangybi.

£20 rhif 242 :

Mrs Mair Jenkins,
Glynmeherin, Gorsgoch.

£15 rhif 56:

Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer, Llanbydder.

£10 rhif 166 :

Mrs Sally Evans,

Alltwen, Llandysul.

£10 rhif 228 :

Mrs Vera James,

Y Fron, Llambled.

£10 rhif 265 :

Mrs Gwen Jones,
Gellidewi Uchaf, Cwmann.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amacchydol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove 40A Y Stryd Fawr, Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanbydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambod.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambod Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod

☎ 01570 422893 / 422175

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Tref Llambod

Maer: Rob Phillips, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llambod Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Chris Thomas. Estynwyd cydymdeimlad â Cecilia Barton ar ei cholled ddiweddar.

Plismona Nodwyd bod amryw achosion o ladrata a bygwyth wedi cael sylw gan yr heddlu ynghyd â throseddau cysylltiedig â chyffuriau. Roedd ffenestri wedi'u difrodi ar gampws yr ysgol ac unigolion yn wynebu cyhuddiadau.

Penderfynwyd gwahodd y Dirprwy Is-Ganghellor Meri Hughes i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor i drafod colli swyddi a thoriadau yng nghyllideb y Brifysgol.

Sgwâr Harford Penderfynwyd trafod y pwnc ymhellach gyda Cyngor Ceredigion. Nodwyd bod Banc HSBC wedi cynnig £1,000 o amser gwirfoddoli i lanhau'r tir a oedd yn gyfrifoldeb iddyn nhw. Yn dilyn cyngor gan CADW, penderfynwyd peidio â glanhau'r tywodfaen ar ran uchaf y ffynnon.

Derbyniwyd llythyr gan Lynda Mason-George yn ymddiswyddo o'r Cyngor oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymadau teuluol. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth a'i chefnogaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Ebrill 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llambod Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan y Maer.

Plismona Derbyniwyd llawer o achwynion fod sbwriel papur lapio'r parlwr pizza yn crynhoi ar Sgwâr Harford. Cytunodd y Maer i geisio datrys y broblem.

Mae fan a charafan sydd wedi parcio ar Ffordd y Porthmyn yn creu anhawster.

Holwyd pryd y byddai'r goleuadau Nadolig yn cael eu tynnu.

Cymorth i'r Gwroniaid Penderfynwyd trefnu cwrdd â'r rheini a oedd ar y daith gerdded a threfnu pryd o fwyd ar gyfer y tri cherddwr.

Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol Bydd Selwyn Walters yn cynrychioli'r cyngor.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Emyr Evans, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Mawrth 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad i Emrys Evans ar farwolaeth ei briod, Nancy, yn ddiweddar. Dymunwyd gwellhad buan i Tommy Davies yn dilyn llawdriniaeth. Llongyfarchwyd y Clerc Eirlys Davies ar enedigaeth merch fach sef Gwennan.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae â'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Nodwyd bod y gwaith ar y palmentydd wedi'i gwblhau.

Mynegwyd pryder am y ceffylau ar Fynydd Llanllwni.

Trafodwyd yr angen i roi rhywbeth ar y borfa ger y Belle Vue er mwyn rhwystro tractorau a cheir i fynd ar y borfa.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.

Cyfarfu'r Cyngor ar 9 Mai 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Plismona: Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones i'r cyfarfod; cafwyd eglurhad ganddo y bydd yr heddlu yn mynychu'r cyfarfodydd yn y dyfodol. Dywedodd fod trefn newydd yn mynd i ddod ynglyn â phlismona'r ardal yn y dyfodol ond nid oedd y drefn wedi ei sefydlu. Nodwyd bod amryw gwynion wedi eu derbyn yn ddiweddar.

Y Cae Chwarae: Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies a Tom Jones. Roedd y gwaith cyfreithiol i drosglwyddo'r cae Chwarae i'r Cyngor Bro yn mynd yn ei flaen.

Y Post Brenhinol: Nodwyd y bydd y cyngor yn cysylltu eto er mwyn ailgodi'r bocs postio ger Blaencwmdu.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 11 Gorffennaf 2011.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Bro 17 Mai am 8.30.

Yn absenoldeb y Cadeirydd â'r Is-Gadeirydd dechreuwyd y cyfarfod gan y Clerc i drafod yr hewl sydd yn mynd o ben hewl Cwmiâr ger Abercwm drwy fuarth fferm Cwmiâr, heibio i Sunny Bank, Blaencwmiâr ac allan i Mountain Gate. Yr oedd y Clerc wedi derbyn galwad ffôn o gwyn yn ddiweddar gan berchen Cwmiâr oherwydd bod Blaencwmiâr yn anfodlon i neb ddefnyddio'r darn yma o'r hewl. Dymuniad perchen Cwmiâr oedd bod yr hewl yn agored i bawb, ac yr hoffai gael llythyr o gadarnhad oddi wrth y Cyngor bod bobl y plwyf wedi defnyddio'r hewl gerllaw Abercwm a thrwy fuarth Cwmiâr ers blyneddau. Penderfynwyd yn unfrydol gytuno i'r cais yma a chopio'r llythyr i'r adran briodol yn y Cyngor Sir. Yn ogystal penderfynwyd cysylltu â'r Cadeirydd i egluro amcan y cyfarfod heno.

Diolchodd y Clerc i bawb am eu presenoldeb.

Cyngor Cymuned Llanwnen

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol Nos Fawrth 3 Mai 2011 yng Ngwesty'r Grannell. Cadeirydd: John T.B. Williams. Wedi i'r Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cyflwynwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn 2010-2011 gan y Clerc ac fe'i derbyniwyd gan yr aelodau.

Etholwyd Chris Evans yn Gadeirydd am y flwyddyn 2011-2012 ac Aeron Hughes yn Is-Gadeirydd. Cyflwynodd John T. B. Williams gadwyn y swydd i'r Cadeirydd newydd gan ddymuno'n dda iddo yn y flwyddyn sydd i ddod. Ymatebodd yntau drwy ddiolch i'r cyn-gadeirydd am ei ymroddiad yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Disgwylir i Gyngor Sir Ceredigion symud ymlaen yn ystod y mis i hysbysebu am Gynghorwr newydd i lenwi'r sedd wag o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cyng. Megan Rees ynghynt yn y flwyddyn.

Dilynwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol gan gyfarfod o'r Cyngor â'r Cadeirydd newydd, Chris Evans, yn y gadair.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth 21 Mehefin 2011.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: **Alison Jones**

Oed: 29

Pentref: Llanddewi-Brefi

Gwaith: Dunbia, Llanybydder

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Cerdded y ci gyda Dad a gwyllo Mam yn ceginio.

Hoff raglen pan oeddet yn blentyn.

Lassie.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I beido cwmpo bant o'r ceffyl.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Belinda Carlisle, Heaven on Earth Album.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Cogydd neu yrrwr lori.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Tu allan, mewn cae, yn yr awyr iach.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Y golygfeydd, y bobl, y cymunedau.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Diffyg band llydan (ond well gen i fyw fan hyn hebdo fe).

Pa mor wyrdd wyt ti?

Rwy'n ail-gylchu ble galla i, ac yn gwneud ambell i free wheel i safio diesel.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Saesneg a Chymraeg, yn gyfartal.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Celwyddgi a pherson ymffrostgar.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Mae angen car newydd arna i i ddechrau, a'r gweddill ar fwyd Fortnum and Mason, ac esgidiau pert.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Pan gododd pris diesel dros 140c/lt!!! Rwy dal yn grac!



Beth sy'n codi ofn arnat?

Uchder.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Popeth, ffrindiau, gwaith, anghenfil neu bobl gas.

Unrhyw ofergoelion?

Croesi bysedd pan yn gweld pioden, dim cerdded o dan ysgol, a bod yn ofalus ar dydd Gwener 13eg pa bynnag fis.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Cael y swydd sydd gen i nawr.

Ac yn bersonol?

Cael gradd 2:1 yn Harper Adams.

Sut wyt ti'n cadw'n gryf?

Tynnu'r gelyn gyda'r Ladis Pinc a helpu Dad amser wyna.

Beth yw dy ddiod arferol?

Gwin gwyn, Marlborough Sauvignon Blanc mawr, neu Cosmopolitan.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Ford Focus.

Beth yw dy hoff wisg?

Jîns, welingtons a hŵdi i fod mas tu fas.

A'th hoff adeilad?

Fy nhŷ yng Nghaerfyrddin, ma' fe'n lyfli.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

The Postmistress – diddorol iawn, stori amser rhyfel.

Sut wyt ti'n ymlacio?

Gwin a chwmni da neu fynd mas ar y ceffyl.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Facebook, autotrader a www.dunbiafarmers.com

Hoff gân ar dy ipod?

Dim ipod.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?

Dim Sky+.

Sawl teest y dydd wyt ti hala?

Tua 5.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Pobl sy'n gweithio gyda fi.

Pa ffilm welast ti ddiwethaf?

Hotel for Dogs (dydd Sul ar ôl bod mas nos Sadwrn).

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Cluniau teneuach!

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?

Garddwrn.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Scampi'r gath.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni?

Canu.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Esgidiau – Ron nhw'n bert!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Teulu a ffrindiau.

Y gwyliau gorau?

Latvia gyda CFfl Cymru a'r Rali Ewropeaidd.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn 50?

Port Meirion, Ynys Sgomer i weld y palod, Saundersfoot.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

De America – Brasil, Patagonia, Canada ac Awstralia

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Priodi, nofio'r sianel a chael gafael ar hufen iâ ceirios a hufen Hagen Daaz Limited Edition eto.

Arferion gwael?

Anghofio, Styfnigrwydd.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Tudur Jones, Pont Creuddyn.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				1	4		3
	1					9	7
2			8				
9		3	1	8			
		4			1		
			5	2	9		8
				6			5
5	6					7	
3		2	9				

Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau i Greta Walters, Y Graig, Llanfihangel-ar-Arth a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Betty Prytherch, Tyngug, Llanllwni a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

7	8	6	9	3	1	2	4	5
9	5	2	7	6	4	3	1	8
3	1	4	5	8	2	9	6	7
8	2	3	4	5	6	1	7	9
4	7	1	8	2	9	5	3	6
6	9	5	1	7	3	4	8	2
2	4	9	6	1	8	7	5	3
5	3	8	2	4	7	6	9	1
1	6	7	3	9	5	8	2	4

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr



Daeth llwyddiant ysgubol i nifer o ddisgyblion yr ysgol yng nghystadlaeth Celf a Chrefft Cenedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Nia Beca Jones ar ddod yn ail am ei gemwaith, Joseph Gregg yn ail am dechnoleg, Michaela Michelle yn ail am wehyddu a Georgie Hines yn drydydd am bypedau. Yn ogystal cipiodd Leela Attala Gibson y drydedd wobwr am waith ysgrifennu ail-iaith. Da iawn chi gyd.

Bu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu yng nghystadlaeth Cenedlaethol yr Urdd a gwneud yn hynod o dda ymysg timau o safon uchel ar draws Cymru.



Yng nghystadlaeth trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd daeth Ruth Davies yn gyntaf, Grace Page yn drydydd, Thomas Willoughby yn wythfed, Menna Kime a Daniel Lewis yn unfedarddeg a Lauren Hill yn ddeuddegfed. Llongyfarchiadau iddynt ac i Dafydd Lewis ac Adrian am wneud yn dda hefyd.

Cafodd disgyblion y cyfnod sylfaen hwyl a sbri yn Chwaraeon Potes yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanllwni a bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn gwyllo sioe Martyn Geraint "Draw dros yr enfys" a chael amser gwyh. Cafodd ambell i aelod o staff gwtsh gan Martyn hefyd!

Diolch i Miss Pugh am drefnu i grŵp o blant i fynd i gystadlaeth hoci yn Aberystwyth a diolch i Mrs A Jones am gludo plant hefyd. Cafwyd diwrnod llawn hwyl ac roedd yn brofiad gret i'r plant.

Diolch i Mrs C Lewis, Miss C Pugh, Miss S Jones a Mrs Rh Jones am fynd a grŵp o blant i Langrannog ar y cwrs ail-iaith. Cafwyd amser gret.

Bu Pc Gwyndaf Lloyd yn sgwrsio ac yn dangos ei wisg i'r dosbarthiadau Methrin a Derbyn a diolch iddo am roi o'i amser.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 dreulio diwrnod yn y sector Uwchradd yn ddiweddar hefyd.

Cynhaliwyd cyngerdd o bigion eisteddfod yr Urdd yn Ffynnonbedr a chafwyd noson wych yng nghwmni'r plant a fu'n canu, dawnsio a llefaru. Diolch i'r plant, athrawon ac i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd mewn unrhyw ffordd. Gwnaethpwyd elw o £347.00 tuag at waith yr Urdd yn yr ysgol. Bydd y Gymdeithas Rien i Athrawon yn cynnal sêl cist car ar ddydd Sadwrn Mehefin 4ydd yn yr ysgol.

AR WERTH

Ffwrn Stanley Super Star
olew 60,000BTU Lliw 'mink'
Pris i'w drafod
Llwyd, Ty'r Ysgol, Talgarreg
01545 590295

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno â'r
farn a adlewyrchir yn mhob
un o erthyglau CLONC.

Yr Ysgol Gyfun

Bu'r canlynol yn canu fel côr mewn noson o fawl yng nghapel Soar ar y 7fed o Ebrill. Roedd y noson yng ngofal Mr Gerald Morgan, ac yr oedd yr elw yn mynd i gronfa'r Urdd.

Carwen Richards, Sioned Davies, Gwawr Hatcher, Sophie Jones, Lauren Jones, Meleri Davies, Sian Elin Williams, Ceri Jenkins, Lowri Jones, Carys Jones, Hannah Timmis, Delyth Evans, Kelly Jones, Nia Gwyther, Sulwen Richards, Alis Butten, Meinir Davies, Elin Hughes, Caryl Jacob, Rhiannon Davies, Lleucu Ifans a Jessica Davies.

Bu'r merched hefyd yn diddanu'r henoed yng ngholeg Llanbed ar y 13eg o Ebrill. Cafwyd perfformiadau unigol, deuawdau, partion ac adrodd, ynghyd ag eitemau fel côr. Perfformiodd y merched yn raenus gydag unigolion yn cyflwyno'r eitemau yn ddeallus.

Ar y 3ydd o Ebrill bu'r canlynol yn Aberaeron yn ymarfer gyda Mr Emyr Wynne Jones fel aelodau o Gôr Canolradd Ceredigion. Yna, ar y 5ed o Ebrill cynhaliwyd cyngerdd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth: Klean Dalton, Myfi Studman, Jade Lloyd, Jenny Carter, Jessie Dalton, Lleucu Ifans, Caryl Jacob. Da iawn iddynt am eu hymroddiad, a llongyfarchiadau i Klean ar gael ei ddewis i ganu unawd yn y gyngerdd.

Roedd Joshua Yardy o flwyddyn 8 hefyd yn perfformio yn y gyngerdd fel aelod o fand pres y sir. Roedd y perfformiad yn wefreiddiol a phleser oedd gweld Josh yn rhan ohono.

Ar Ddydd Iau, 31ain o Fawrth, bu criw o ddisgyblion blwyddyn 7, a dau aelod o'r chweched yn cymryd rhan yng nghystadlaeth 'Spelling Bee' papur y 'Times' yng Nghasnewydd. Bu'r disgyblion yn cystadlu mewn dwy rownd gyffrous a diddorol iawn. Y cystadleuwyr oedd Dylan Hemmings, Manon Williams, Francesca Challis ac Imogen Auckland, ac enw'r tîm oedd 'Bumbles'. Diolch i Jenny Davies, Libby Jones, Terry Gardner a Dominique Geddes o flwyddyn 12 am eu hyfforddi.

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo yn neuadd yr ysgol ar nos Iau, Ebrill 14eg. Bu'n noson ddymunol iawn a braf oedd croesawu cynifer o ddisgyblion, cyn-ddisgyblion a'u rhieni i'r ysgol. Y gwr gwadd oedd Mr Garry Owen, darlledwr ar Radio Cymru a newyddion y BBC.

Yn ystod y noson cawsom glywed adroddiad y Prifathro a bu ein prif swyddogion Ben Lake ac Elliw Dafydd yn cyflwyno uchafbwyntiau'r flwyddyn.

Cawsom ein diddanu gan nifer o ddisgyblion yn ystod y noson, a buont yn dangos eu doniau wrth berfformio eitemau cerddorol o safon uchel. Diolch yn arbennig i Gwawr Hatcher, Sian Elin, Elliw Dafydd a côr merched yr ysgol. Bu'n noson lwyddiannus a chofiadwy a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobwr.

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Dyma'r canlyniadau:- Unawd Merched BI 7-9 Lowri Elen Jones 1af; Unawd Bechgyn BI 7-9 Meirion Thomas 2il; Unawd Merched BI 10-19 oed Elliw Dafydd 3ydd; Cyflwyno Alaw Werin BI 7,8,9 Meirion Thomas 3ydd; Cyflwyno Alaw Werin BI 10-19 oed Aron Dafydd 3ydd; Unawd Piano BI 7-9 Meinir Davies 3ydd; Unawd Cerdd Dant BI 7-9 Meirion Thomas 2il; Unawd allan o Sioe Gerdd BI 10-19 oed Elliw Dafydd 1af; Parti Merched BI 7,8,9 3ydd; Parti Bechgyn BI 7,8,9 1af; Côr Merched S.A. BI 13 ac iau 3ydd; Côr Bechgyn T.B. BI 13 ac iau 1af; Llefaru Unigol BI 7-9 Lowri Jones 2il; Llefaru Unigol BI 7-9 (D) Max Zinn 3ydd; Monolog BI 10-19 oed Elliw Dafydd 1af; Grwp Llefaru BI 7,8,9 2il; Grwp Llefaru BI 7,8,9 (D) 1af; Dawns Werin BI 7,8,9 2il; Dawns Cyfansoddiad Creadigol BI 7-19 oed 2il; Grwp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/ Disgo/ BI 7,8,9 2il.

Ar Nos Wener Ebrill 15fed cynhaliwyd sioe ffasiwn yn yr ysgol i godi arian at 'Breakthrough Cancer'. Huw 'Fflash' Rees oedd yn arwain y noson ac fe fu disgyblion y chweched yn modelu dillad o siopau lleol fel, 'Lan lofft yn Duet', 'Bossy Boutique', 'Owen Sports', 'Iago' a'r 'Sgarlets'. Buont hefyd yn modelu ffrogau priodas deniadol iawn o siop Huw Fflash yn Llandeilo ac hefyd yn arddangos hen ffrogau priodas aelodau o'r staff. Cafwyd hefyd arwerthiant ar y noson gydag Andrew Jones wrth y llyw. Bu'n noson arbennig o lwyddiannus ac fe godwyd £10,000 tuag at yr achos. Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r digwyddiad, ond yn arbennig i Miss Nerys Douch am drefnu'r noson ac hefyd i Mrs Jane Wyn.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Nerys Douch ar gwblhau marathon Llundain.

Bu Carwen Richards o flwyddyn 12 ar brofiad gwaith arbennig iawn dros wyliau Pasg ym mhencadlys y pwyllgor sy'n trefnu'r Gemau Olympaidd yn Llundain. Roedd hi eisoes wedi cael ei dewis yn genhades ar gyfer gemau Llundain 2012 ar gyfer Ceredigion, ac roedd hi ymhlith y chwech o'r Deyrnas Unedig gafodd eu dewis i elwa o'r profiad arbennig yma. Mae pwyllgor trefnu'r gemau yn cael ei arwain gan Sebastian Coe, a'i gartref yn Canary Wharf. Treuliodd Carwen dridiau yno, a bu hefyd yn ymweld â'r ymarferion ar gyfer y seremoni agoriadol.

Llangybi a Betws

Hamdden

Treuliwyd prynhawn difyr iawn ar Fai 6ed yng nghwmni Mr Roger Hartwell a rhai o ddisgyblion Ysgol Y Dderi. Roedd yr aelodau wedi mwynhau a gwerthfawrogi yr arddangosfa o flodau lliwgar a deniadol sydd yn amgylchynu yr ysgol ac yn ddiolchgar iawn am y trefniadau a wnaed ar fyr rybydd er mwyn cynnal y cyfarfod. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch wresog am brynhawn hyfryd ac addysgiadol gan Joyce Harries. Rhoddwyd y te a'r bisgedi gan Gwenda Thomas, Yvonne Thomas a Ceinwen Jones ac fe'u gweinyddwyd gan Janet Farrow a Rita Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 3ydd pan fydd y gangen yn ymweld â Phortmeirion. Enwau i Sally Davies mor fuan â phosib 422926.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys yr ardal â Mrs Morina Davies, Llwynonnn yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith Marcus Davies o Silian. Cydymdeimlir hefyd â theulu Blaenwern hwythau wedi bod mewn profedigaeth ers colli ei hewythr. Cydymdeimlir â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau eraill yn eu colled.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Fai 18fed yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Lettie Vaughan. Dymunwyd adferiad buan a llwyr i Mary Jones ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili – brysiwch wella.

Llongyfarchwyd Eleanor Evans ac Iris Quan yn eu llwyddiant mewn cystadleuaeth sirol yn Felinfach, pan yr enillwyd nifer o wobrau rhygddynt ac fe ddaeth cangen Y Dderi yn gydradd ail drwy'r sir.

Trefnir trip i erddi Aberglasni ar y 13eg o Orffennaf. Dechrau o Lamberd o'r Comin am 12:30y.p. Croeso cynnes i unrhywun ymuno â'r gangen. Enwau i Lettie Vaughan os gwelwch yn dda.

Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis ac fe'u henillwyd gan Margaret Davies-Jones a Lettie Vaughan. I ddiwedd y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Glenys Lloyd a Mair Spate.

Penblwydd

Dymunir penblwydd hapus ac arbennig iawn i Mrs Maisie Morgans, 1 Bro Deri. Gobeithio i chi fwynhau y diwrnod a'r gwyliau tramor. Ymlaen yn awr am lawer blwyddyn eto!

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 a fu'n yn cystadlu ar ddydd Llun cyntaf Eisteddfod yr Urdd yng nghystadlaeth Dawnsio gwerin i blant blynyddoedd 3 a 4. Braf oedd eich gweld yn cynrychioli Sir Ceredigion a gwneud eich gwaith â graen.

Daeth nyrs Heather Whalley atom i siarad am ddiogelwch yn yr haul. Edrychwn ymlaen i haf poeth, er mwyn cael y cyfle i wisgo hetiau a sbectolau haul ac wrth gwrs i roi eli haul holl bwysig arno!

Mae Madame Bernadette gyda ni am y tymor er mwyn rhoi gwersi Ffrangeg i blant blwyddyn 5 a 6.

Llongyfarchiadau i Rhian Griffiths, blwyddyn 3 ar ddod yn 17eg yn ras trawsgwlad cenedlaethol yr Urdd. Dai awn ti Rhian!

Braf yw cael croesawu Miss Caryl fel athrawes blwyddyn 1 yn barhaol ym mis Medi. Edrychwn ymlaen i gael cydweithio â hi.

Cafodd blant y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri yn Llanllwni yng ngemau potes yr Urdd. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Croesawyd disgyblion ysgolion Llanwnnen, Llanybydder, Trefilan a Felinfach atom ar gyfer gweithdy KNEX.

Bu Mrs Heini, Miss Fiona ac wyth o ddisgyblion blwyddyn 6 ar daith gyfnewid i Ddenmarc ar ddiwedd mis Mai. Fel arfer cafwyd croeso bendigedig a theithiau hwylus er mwyn dod i adnabod y wlad a'i thraddodiadau.

Bu'r ysgol gyfan yng nghlwm â gweithgareddau adnabod planhigion, prosiect arbennig a threfnwyd ar y cyd â gerddi Kew a'r 'Wellcome trust'. 'Rwy'n siwr bod y plant a'r athrawon wedi dysgu llawer am blanhigion a'r cynefin lle maent yn tyfu.

'Rydym yn croesawu criw Bible Explorers' atom trwy gydol y tymor yma ar gyfer dod â straeon y Beibl yn fyw i'r plant.

Llanwnnen



Aelodau Sefydliad y Merched, Llanwnnen yn mwynhau Swper Blasus yn 'Sgubor Teile', Bwlchllan.

Pwyllgor Lles

Ar nos Fawrth y 17eg o Fai bu cyfarfod o'r Pwyllgor Lles gyda'r Cyng Haydn Richards yn y gadair. Cyfeiriwyd ein bod wedi derbyn rhoddion ariannol wrth Bwyllgor Adloniant y Pentref, Sally Jones o Siop y Pentref a Chyngor Cymuned Llanwnnen o ganlyniad i wahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd iddynt am eu caredigrwydd.

Wedi trafod materion arferol etholwyd Mr Gomer Lewis, Hafan un o aelodau sylfaenol y pwyllgor yn Aelod Anrhydeddus.

Trefnwyd gwibdaith yr haf sef mynd i Aberhonddu a'r cyffiniau ar ddydd Mercher, 29ain o Fehefin. Y bws yn gadael Llanwnnen am 9:00y. b. a Lamberd am 9:15y.b. Enwau i Mrs Gwen Davies – 01570 481152 neu Ann Hughes 01570 422654. Croeso cynnes i bawb.

Sefydliad y Merched

Ar brynhawn Mawrth 10fed o Fai aeth y gangen i ymweld â Swyddfeydd newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn Aberystwyth. Adeilad moethus wedi ei gynllunio yn fanwl gyda phwyslais mawr ar arbed egni! Gadael Aberystwyth a mynd am swper i 'Sgubor Teile' ym Mwlchyllan. Cafwyd swper blasus a chroeso cynnes gan y teulu Downes.

Diolchodd y llywydd Mrs Gwen Davies i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu'r trip ac enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Mary Davies.

Noson o ymarferion corff fydd ar nos Lun, 6ed o Fehefin am 7:30y.h. yng Ngwesty'r Grannell.

Cydymdeimlo

Clywyd am farwolaeth Miss Maggie Evans, Y Bryn, Llanwnnen gyda thristwch yn ystod y mis. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Ysgol Llanwnnen

Croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd sef Cadi Evans a Meredydd Davies. Maent bellach yn gartrefol iawn yn ein plith.

Mae disgyblion blynyddoedd 4, 5

a 6 wedi manteisio'n fawr o brofiad cael gwersi Addysg Gorfforol gan fyfyrwyr Coleg y Drindod gan fwynhau pob math o weithgareddau megis dringo a chyfeiriannu.

Mae disgyblion dosbarth Mr Ebbsworth wedi bod yn derbyn ambell wers Wyddoniaeth yn labordai'r ysgol uwchradd gan fwynhau'r profiad yn fawr. Diolch yn fawr i Miss Mattie Evans am drefnu.

Aeth tîm o flynyddoedd 1 a 2 i chwaraeon potes yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanllwni gan ddychwelyd yn llawn cyffro am y gêm amrywiol y cawson nhw eu chwarae yno.

Erbyn hyn mae blwyddyn 6 yn dod tua therfyn eu hamser yn yr ysgol ac maent bellach wedi dechrau treulio ambell gyfnod yn Lamberd yn blasu yr hyn fydd yn eu disgwyl ym mis Medi, gan gynnwys cyfnod yn yr adran Ddylunio a Thechnoleg yn defnyddio'r adnoddau gwych sydd ar gael yno.

Cafodd flwyddyn 5 brofiad gwych drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth K'Nex a drefnwyd gan Gyrfa Cymru yn Ysgol y Dderi. Rhoddwyd sawl her i'r disgyblion gan gynnwys cynllunio ac adeiladu pont. Llongyfarchiadau mawr i Catrin Rosser ac Olivia Curthoys am ennill yr her.

Diolch i bawb a gefnogodd drwy lenwi bagiau â dillad a nwyddau ar gyfer eu casglu. Cafodd y casglwr dipyn o sioc yn gweld sawl sach oedd yno! Mae'r ysgol yn derbyn arian am bob tunnell o nwyddau.

Mae nifer o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn paratoi ar gyfer cystadlu yng nghystadlaeth Dawnsio gwerin yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe ar y 3ydd Mehefin. Diolch yn fawr iawn i Elonwy Davies am ddod yn ffyddlon i gyfeilio i'r grŵp. Pob dymuniad da i Gareth, Liam, Ryan, Twm, Daniel, Ellen, Catrin, Gwenllian a Heledd.

Diolch yn fawr iawn i Elin Thomas, 1 Sycamore Terrace, a fu'n dysgu rhan amser yn yr ysgol hyd at dymor y Pasg. Pob dymuniad da ichi yn eich swydd newydd ym Mhontrhydfendigaid.



Enillwyr Cystadleuaeth K'Nex Ysgol Llanwnnen



Mwynhau Mis Mehefin.

Wrth i ni gamu mewn i dymor newydd, ac i fis newydd, byddaf yn croesawu cynhwysion newydd i'r gegin. Daw Mehefin â chyfoeth o flasau, lliw ac awyrgylch i'r rysetiau yma, sef prydiau ysgafn, syml a braf.

Dyma rai o fy ffefrynnau i ddathlu ymweliad yr haf. Felly edrychwch yn yr oergell a'r cwpwrdd cyn bwrw ati â'r rhestr siopa.

Hwyl!

Gareth.

“‘Chickpea’ cynnes ‘Chorizo’ a salad pupur.”

(Cofiwch fod yna lawer o gynhyrchion yn barod i'w bwyta mewn jarai a photeli.)

Cynhwysion.

- 200gm 8oz o chorizo
- Llund llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 410gm o chickpeas
- Jar 250gm o bupur cymysg wedi'u rhostio
- Ychydig ddail coriander wedi'u torri'n fân.
- 2 llond llwy fwrdd o iogwrt naturiol



Dull

1. Torrwch y chorizo yn dafellau trwchus. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio fawr dros wres uchel, a choginiwch y chorizo am tua 4 – 5 munud.
2. Ychwanegwch y chickpeas i'r badell ffrio a choginiwch am ychydig funudau nes yn boeth, wedyn y pupur a chynheswch drwyddo.
3. Tynnwch o'r gwres ac ychwanegwch y coriander. Rhowch ar blât gyda llwyed o iogwrt ar ei ben. Gweinwch yn dwym neu'n oer.

Paté Pysgod

Cynhwysion

- 225 gm 8oz o fenyn
- 100gm 4oz o gorgimwch wedi'u coginio. (prawns)
- 100gm 4oz o frithyll wedi i smygu
- 1 ewyn o arllwg
- 6 llond llwy fwrdd o creme fraiche
- Ychydig o baprika
- Sudd ½ lemwn
- Pupur
- Lemwn a phersli i addurno'r cyfan.



Dull

1. Rhawch 6oz o'r menyf, y corgimwch, y brithyll, garllwg, paprika, creme fraiche a'r lemwn mewn prosesydd bwyd a malwch. Rhannwch y cynnwys i 4 disgyl ramekin.
2. Toddwch weddill y menyf a rhawch mewn jwg gan adael yr hylif gwyn ar ôl.
3. Arllwyswch yr hylif melyn dros y pedair disgyl ac oerwch. Gweinwch gyda'r lemwn, persli a bara menyf ffres.

‘Nectarines’ wedi pobi.

(Rwyf wedi arbrofi gyda'r rysait ac mae'r ddeg munud olaf yn bwysig i dyneru'r ffrwyth.)

Cynhwysion

- 6 i 8 nectarine aeddfed
- 2oz o almond fflawio (flaked)
- 2 lond llwy fwrdd o fêl clir
- 2 lond llwy fwrdd o siwgrw caster
- 8 llond llwy fwrdd o wîn rose



Dull

1. Twymwch y ffwrn i 200°C 400 °F, Nwy 6. Torrwch y ffrwyth yn hanneri a gnewch i fwrdd a'r garreg. Trefnwch mewn disgyl fedr ddal gwres.
2. Cymysgwch yr almwn gyda'r mêl mewn disgyl. Rhawch lwyaid o'r almwn ar bob darn o'r ffrwyth. Rhawch ychydig o'r siwgrw dros y ffrwyth a rhawch y gwin o amgylch y cyfan
3. Coginiwch am tua 20 munud. Trowch y ffwrn i fwrdd ond gadewch y ffrwyth i aros yn y ffwrn am **10 munud**.
4. Tynnwch o'r ffwrn a gweinwch gyda hufen iâ.

Colofn Dylan Iorwerth

Gwledig lôn a blodau yn y cloddiau

Mae'n hawdd iawn lladd ar y rhai sy'n gosod y rheolau i warchod byd natur, a gweld bai arnyn nhw am ymddangos fel petaen nhw'n rhoi golygfeydd o flaen y rhai sy'n byw yn y golygfeydd hynny.

Ond siawns na fedr neb wrthod eu canmol am un peth ... mae cefn gwlad wedi gweddnewid yn ystod y blynyddoedd diwetha'.

Nid oherwydd y pethau mawr – patrwm amaethyddiaeth neu felinau gwynt neu debyg – ond oherwydd y pethau bach sy'n llechu ym môn clawdd a gwrych.

O flwyddyn i flwyddyn, mae ochrau ein ffyrdd ni wedi bod yn mynd yn fwy a fwy lliwgar ac amrywiol nes edrych yn debycach i'r hyn y mae rhai ohonon ni'n ei gofio, achau'n ôl.

Does dim amheuaeth mai'r gwaharddiad ar dorri gwrychoedd ac ochrau ffyrdd sy'n rhannol gyfrifol am hynny a'r ffaith nad oes cymaint o gemegau'n cael eu defnyddio ar y cloddiau erbyn hyn.

Cyn hyn, dim ond mewn ambell goedwig yr oeddech chi'n gweld clychau glas; bellach maen nhw ar hyd ochrau'r ffyrdd ymhobman ... “y gwyllt atgofus bersawr, yr hen lesmeiriol baent” fel y dywedodd R. Williams Parry.

Mae'r coed drain wedi bod yn rhyfeddol eleni hefyd, fel petai'r gaeaf wedi gadael peth o'i eira ar ôl. A fuodd yna ddim byd tebyg i'r tresi aur – mae cerdded i fyny un o'r ffyrdd bach cul yna ger Galtymynydd fel cerdded trwy gawod felyn.

Dw i'n rhyw amau bod y gostyngiad mewn pori ar y llethrau hefyd yn dechrau cael effaith. Mae'r grug a'r llyse duon bach i'w gweld yn llawer mwy twmpathog ac mae yna fân goed gwern a chriafol yn dechrau tyfu rhwng y clympiau.

Ar ôl diflannu am gyfnod, mae yna sawl casgliad o blu'r gweunydd i'w gweld unwaith eto – fel petai'r tylwyth teg yn chwifio hancesi poced ... ac efallai ei bod yn well i fi roi'r gorau iddi fân'na.

Achos mae'n siwr fy mod i'n anghywir – mae'n siwr fod yna rai fydd yn gwrthod canmol. Mae'n sicr fod peidio â thorri gwrychoedd a choddiau'n gwneud bywyd yn anoddach i rai.

Ac mae'r un mor sicr bod ambell i yrrwr diofal wedi rhoi'r bai ar dyfiant y clawdd am ei ddamwain ac eraill yn tisian llawer mwy oherwydd twymyn y gwair.

Ond mae'n llawer gwell gen i'r tryblith a'r gymysgedd o liwiau na'r hen gloddiau moelion llwm. Mi fydd llinell arall yn dod i'r cof ... “gwledig lôn yn gul gan haf” ... petaen ni'n cael haf, mi fyddai honno'n eirwir hefyd.

Ac mae'r planhigion a'r blodau'n wers i ninnau hefyd. Y rhyfeddod ydi eu bod nhw'n ymddangos eto ar ôl cynifer o flynyddoedd. Roedden nhw yno o hyd, yn aros am gyfle i ymddangos ...

Derek

Mae yna rai pobol na fyddwch chi'n eu gwerthfawrogi nhw'n iawn nes y byddan nhw wedi mynd. Roedd Derek yn un o'r rheiny.

Mi fydd ffrindiau a theulu'n ei golli, wrth gwrs, ond mi fydd cymunedau Alltbylaca a Llanwnnen hefyd ... yn arw iawn.

Oherwydd mai pobol dawel, ddiymhongar, ydyn nhw, dyden ni ddim yn sylweddoli cymaint o gyfraniad y mae rhai fel ef yn ei wneud, yn gadarn a dibynadwy.

Y wên a'r llais addfwyn y bydda' i'n eu cofio. Os gall gwên fod yn dawel, un felly oedd hi ... tawel ond cynnes.

Trwy'r capeli yr o'n i'n gwneud fwyaf efo Derek – dyn ardderchog i'w gael mewn cyfarfod, yn bwylllog, yn ddoeth a heb eiriau wast. Ac yn gwbl ddibynadwy.

Mi allwn ddychmygu ei fod yn athro da yn ei ddyddiau yn High Mead – yn ffrind i'r bobol ifanc ond eto'n ennyn eu parch.

Mi gafodd Jean ac yntau golled ofnadwy pan gafodd Dewi, eu mab, ei ladd mewn damwain ond wnaeth yr un ohonyn nhw chwerwi. Yn hynny, fel mewn llawer o bethau, roedd yn esiampl i'w dilyn yn glos.

Hynny sy'n aros, pan fydd ffws a stwr wedi mynd.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Seren Newydd Yr Elyrch

Mae un o sêr byd pêl-droed y dyfodol yn dod o Lanbedr Pont Steffan. Ei enw yw Gwion Edwards deunaw oed o Stryd y Bont a'i fod newydd arwyddo i chwarae i dîm pêl-droed Abertawe.

Yn gyn ddisgybl o Ysgol y Dderi ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan enillodd ysgoloriaeth pan oedd yn un ar bymtheg oed i ymuno ag Academi Ieuencid Abertawe. Bu'n rhaid iddo adael y nyth ac ymgartrefi gyda'r Elyrch yn ninas Abertawe ac yntau'n ifanc iawn.

Ond i'r rhai ohonoch sy'n ei adnabod, mae ei fryd wedi bod ar chwarae pêl-droed erioed. Bu farw ei dad Jeff yn ifanc pan oedd Gwion ond yn dair blwydd oed, ond cofia ei fam amdano wrth ei fodd yn chwarae gôl geidwad yn yr ardd yn King's Mead gyda'i dad a'i ddau frawd Steffan a Gethin pan oedd e'n ddim o beth.

Chwecw oedd Gwion wedyn pan ddechreuodd chwarae i dîm Llambled a hynny o dan 11 oed. Cofia Barbara ei fam amdano yn mynd i'r ymarfer cyntaf ac yntau ar bigau'r drain eisiau chwarae, gyda Dorian Evans yr hyfforddwr ar y pryd yn ei gymryd o dan ei adain. Mae'r gweddill yn hanes.

Bu'n aelod o dimoedd Llambled a phentref Felinfach o dro i dro. Cafodd ei ddewis i chwarae i dîm y sir o oedran cynradd. Aeth ymlaen wedyn i ymarfer gyda Chaerdydd mewn Canolfan Datblygu yng Nghaerdydd. Ac o fan hynny ymlaen sylwodd sawl clwb ar ei dalentau medrus ar y cae.

Dywed Carwyn Lewis, Cwmann a oedd yn arfer chwarae gyda Gwion yn nhîm dan un ar ddeg Llambled ei fod "yn gallu rhedeg fel milgi ar y cae, a doedd y bêl rywsut ddim yn gadael blaenau ei draed."

Treuliodd ei fam oriau dirifedi yn ei hebrwng ar hyd a lled y wlad i ymarferion a gemau. Athrawes yn Ysgol y Dderi oedd Barbara ar y pryd, ond bu ei hymrwymiad hi drwy gydol yr amser yma yn gefnogaeth amhrisiadwy i bêl-droediwr mor ifanc.

Bu'n ymarfer unwaith yr wythnos yn Lecwith, Caerdydd fel bod swyddogion y clwb yn gallu cadw llygaidd arno. Sylwodd scout Abertawe arno am y tro cyntaf yn nhwrnament Ian Rush yn Aberystwyth pan oedd yn un ar ddeg oed. Ymunodd ag Academi Aberystwyth wedyn. Sylwodd

cynrychiolwyr Manceinion Unedig arno yno a bu'n teithio i gwrdd ag hyfforddwyr Manceinion yn Rhosan-ar-Wy er mwyn treulio gwyliau hanner tymor yn Carrington gyda nhw. Bu dewiswyr dinas Bryste yn cadw llygaidd arno hefyd yn ôl bob sôn.

"Cyddigwyddiad llwyr oedd mynd i Abertawe." meddai ei fam Aeth gyda thîm Felinfach i chwarae yn erbyn ieuencid Abertawe pan oedd yn bedair ar ddeg oed. Wrth chwarae yno, sylwyd arno a syfrdanwyd ei fam gan alwad ffôn oddi wrth Mark Samson yn cynnig ei arwyddo.

Wedi gorffen ei arholiadau TGAU yn Llambled, mynd at y Jacs yn Abertawe oedd ei hanes wedyn. Un bach oedd e o ran corff, a doedd neb mewn gwirionedd yn disgwyl iddo gael cynnig parhau gyda'r clwb ar ôl dyddiau'r academi.

Ond daeth llwyddiant mawr i'w ran. Er gwaethaf ei faint ar y dechrau, profodd ei werth ar y cae. Yn yr academi, bu o dan bwysau i berfformio a darparwyd rhaglen lem a disgybledig er mwyn iddo ymarfer yn gorfforol a datblygu fel pêl-droediwr talentog. Dangosodd sgiliau rhyfeddol fel asgellwr a dangosodd fod ganddo'r ddawn i gicio'n chwim o'r ddau gyfeiriad gan ddefnyddio'i goes chwith a'i goes dde.

Tra yn yr academi llwyddodd i ennill cymwysterau BTEC a NVQ mewn chwaraeon yn ogystal â chymhwyster hyfforddi defnyddiol.


Tipyn o gyrhaeddiad yn wir i fachgen o ardal Papur Bro Clonc. Gŵr ifanc erbyn hyn â dyfodol disglair o'i flaen, ond gŵr ifanc diymhongar iawn hefyd â'i draed yn gadarn ar y ddadear. Pan aeth Clonc draw i siarad ag ef, ddyfalwch chi fyth beth oedd yn ei wneud - golchi car ei fam-gu! Dyna beth yw gŵr bonheddig.

Daeth a chlod iddo ef ei hun, ei deulu ac i'r ardal gyfan.

Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant. Mae'n siŵr y cytuna holl ddarlennwyr y papur hwn ei fod yn haeddu pob clod a ddaw i'w ran. Rhaid ei ganmol hefyd am ddewis ymrwmo i glwb Cymreig. Dymuniadau gorau iddo ac edrychwn ymlaen i'w weld yn chwarae dros dîm Abertawe yn y dyfodol agos, a phwy a wŷr, tîm Cymru hefyd gobeithio!



Cwmsychpant



Bu Sion Jenkins, Hafan y Cwm [Cathal] yn ddigon ffodus i cael ei ddewis i chwarae yn nhîm Dafydd Jones ar ddiwrnod ei gem dysteb a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar Fai 1af. Roedd Sion yn chwarae gyda chwaraewyr Proffesiynol Cymru megis Stephen Jones, Robert Jones a Robin McBride oedd yn yr un tîm ag ef. Mark Jones sef cyn chwaraewr Cymru oedd y dyfarnwr. Da iawn ti Sion.

Pencarreg

Cydymdeimlo

Daeth tristwch dros yr ardal pan glywyd y newydd am farwolaeth Angela, merch annwyl Gaenor ac Ieuan Jones ac unig chwaer Dylan. Merch i'r diweddar Dewi a Bessie Evans, Plas, Pencarreg yw Gaenor ac yn aml y daw'r atgofion melys pan oeddent yn byw ynghanol y pentref.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys tuag at Nigel, partner Angela a'u dau blentyn sef Cara a Dion, y ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Talgarreg lle'r oedd Angela yn aelod parchus a hoffus gyda gweddill y staff, y disgyblion a'r rhieni.

Croeso

Hyfryd yw cael estyn croeso twym galon i Dalar Wen i Lleucu Meinir a Mathew Adams ynghyd â'r plant sef Mannon Siôn a Cynnan Iago.

Da yw gweld wyres y diweddar Mr a Mrs Gwynfor Evans yn ail oleuo'r tŷ. Pob hwyl i chi fel teulu yng nghwmni trigolion Pencarreg a'r fro.



O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Dyma fy erthygl gyntaf ers imi gael fy ail-ethol i gynrychioli Ceredigion yn yr etholiadau Cymreig ar 05 Mai, a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gynrychioli buddiannau Ceredigion a'i thrigolion yn y Senedd ym Mae Caerdydd dros y pum mlynedd nesaf ac mae croeso i chi, fel arfer, i gysylltu â mi os allaf fod o unrhyw gymorth i chi.

Un o fy nghyfarfodydd cyntaf wedi'r etholiad oedd gyda Rhodri Williams, Cadeirydd OfCom yng Nghymru, er mwyn trafod cais perchnogion newydd Radio Ceredigion i newid fformat ieithyddol yr orsaf. Ers i'r gwasanaeth ddod o dan reolaeth perchnogion Radio Sir Gar a Radio Sir Benfro, mae nifer o drigolion lleol wedi bod yn pryderu y byddai'r defnydd o'r Gymraeg yn y darllediadau yn lleihau. Yn awr, mae OfCom wedi derbyn cais i leihau faint o Gymraeg sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau brig ac maent wedi cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau.

Yn ystod mis Mai, gwnes hefyd fynychu'r rali a gynhaliwyd yn Aberystwyth i wrthwynebu'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus mae'r llywodraeth ConDem yn eu cyflwyno. Ceredigion yn Erbyn y Toriadau oedd yn gyfrifol am yr orymdaith a'r cyfarfod ac roeddwn yn falch iawn i gael fy ngwahodd i annerch y dorf a'u hatgoffa cymaint y bydd y toriadau yn effeithio ar Geredigion, lle mae tua 40 y cant o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi gan y sector gyhoeddus.

Yn olaf, roeddwn yn falch i glywed y bydd y Dorch Olympaidd yn dod trwy Geredigion y flwyddyn nesaf yn ystod ei daith o amgylch y Deyrnas Unedig yn yr wythnosau cyn cychwyn y Gemau Olympaidd yn Llundain. Roeddwn wedi dechrau pryderu na fyddai Ceredigion yn elwa dim o'r paratodau ar gyfer y cystadlaethau yn ne-ddwyrain Lloegr ac rwy'n gobeithio y bydd trigolion lleol yn cael y cyfle i gario'r dorch.



Rali C.Ff.I. Sir Gâr

Tyrrodd aelodau a ffrindiau'r Mudiad i Faes Sioe Caerfyrddin ar Ddydd Sadwrn 7fed Fai 2011 i gystadlu a gwylio pob math o gystadleuthau. Rydym yn ddiolchgar i Bwyllgor y Sioe a hefyd staff y Sioe am eu cydweithrediad parod a chysion iawn tuag at y Mudiad. Diolch yn fawr iawn i G.Ff.I Llanfynydd a fu wrthi'n stiwardio'n brys yn ystod y dydd a hefyd i G.Ff.I Llanymddyfri fu'n stiwardio gyda'r nos.

Mae'r Mudiad yn ddibynnol iawn ar haelioni noddwyr ac rydym am ddiolch o waelod calon i Gwmni Bwydydd Castell Howell am fod yn brif noddwr Rali'r Mudiad unwaith eto eleni. Diolch hefyd i G.T & E Feeds, Llanymddyfri am ei nawdd hwy, heb y cymorth ariannol yma ni fyddai wedi bod yn bosib i gynnal diwrnod o'r fath. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Daeth y diwrnod i uchafbwynt gyda seremoni anrhydeddu'r Llysgenhades a Dirprwyon am 2011-2012.



Catrin Parry Williams, Coedfryn, Penybont, aelod o G.Ff.I Penybont yw Llysgenhades newydd y Mudiad am eleni a'i dirprwyon yw Gwawr Lewis, C.Ff.I Penybont, Ffion Jones, C.Ff.I Capel Iwan, Sioned Russell, C.Ff.I Cwmann a Heledd Edwards, C.Ff.I Dyffryn Tywi.

Hefyd fe anrhyddedwyd Sara Non Thomas, C.Ff.I Llanfynydd Aelod Iau y flwyddyn, Arwel Jones, C.Ff.I Llandeilo - Aelod Hŷn y flwyddyn, Meinir Jones, C.Ff.I Llanfynydd - Stocmon Hŷn Diwrnod gwaith maes, Anwen Jones, C.Ff.I Llanllwni Stocmon Iau Diwrnod gwaith maes. Hefyd yn ystod y Seremoni cyhoeddwyd enillydd Tlws Coffa Aled Howells am Prif Stocmon y Flwyddyn sef Angharad Francis o Glwb Llanfynydd.

Daeth C.Ff.I Llangadog a C.Ff.I Dyffryn Cothi yn gydradd 1af yn yr adran hŷn gyda Penybont yn 3ydd. C.Ff.I Llangadog gipiodd y wobr gyntaf yn yr adran Iau gyda C.Ff.I Dyffryn Cothi yn 2ail a C.Ff.I San Pedr yn 3ydd.

Wedi diwrnod brwd o gystadlu a mwynhau coronwyd y dydd gyda dawns arbennig lan yng Nghilycwm. Diolch yn fawr iawn i Mr & Mrs Davies, Fferm Glangwenlais Cilycwm am eu cymorth cyson.

Gwobrau'r Dydd: Barnu Gwartheg godro Iau: 2ail - Anwen Jones a Siôn Evans, Llanllwni; Barnu Defaid Suffolk Hŷn: 1af - Aled Jones a Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi; Arwydd i Hyrwyddo'r Rali: 3ydd - Llanllwni; Adeiladu BBQ: 1af - Carwyn Lewis a Sam Joynson, Llanllwni; Barnu Gwartheg Henffordd Iau: 1af - Anwen Jones a Ifor Jones, Llanllwni; Barnu Gwartheg Henffordd Hŷn: 1af - Aled Jones a Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi; Cneifio Iau: 1af - Rhydian Thomas ac Aled Thomas, Cwmann, 2ail - Dylan Lewis ac Eirwyn Richards, Dyffryn Cothi; Cneifio Hŷn: 1af - Dafydd Lewis a Dai Astington, Dyffryn Cothi; Coginio Iau: 2ail [cydradd]

- Sion Evans a Rhian Davies, Llanllwni; Gwisgo Arweinydd: 1af - Suzanne Lander a Lucy Wright, Dyffryn Cothi; Gwaith Coed Iau: 2ail - Meryl Davies ac Aled Jones, Llanllwni; Paratoi Oen Iau: 2ail - Eirwyn Richards, Dyffryn Cothi; Paratoi Oen Hŷn: 1af - Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi, 3ydd - Rhian Lewis, Dyffryn Cothi; Adnabod cynhwysion bwydydd anifeiliaid: 2ail - Arwel Davies, Dyffryn Cothi; Gêm Hwyl Iau: 2ail - Mirain Tomos a Manon Johnston, Dyffryn Cothi, 3ydd - Rhian George a Siôn Jenkins, Dyffryn Cothi; Gêm Hwyl Hŷn: 1af - Elin Lloyd a Nerys Douch, Dyffryn Cothi, 2ail - Aled Bowen ac Sioned Russell, Cwmann; Addurno Gateaux: 2ail - Aled Jones, Dyffryn Cothi; Floral Art (NFYFC) Hŷn: 3ydd - Rhian Lewis, Dyffryn Cothi; Band yr Ardd: 2ail - Dyffryn Cothi; Bwrdd Ffasiwn: 3ydd - Angharad Williams, Cwmann; Arwerthiant C.Ff.I.: 2ail - Dyfan Evans ac Eirwyn Richards, Dyffryn Cothi; Gwaith Coed Hŷn: 3ydd - Geraint Griffiths ac Eirian Jones, Dyffryn Cothi; Arddangosfa'r Prif Gylch: 2ail - Cwmann, 2ail - Dyffryn Cothi.

CFFI Ceredigion

Bu criw mawr o aelodau hŷn y sir ar dramp i Blackpool yn ddiweddar ar gyfer penwythnos Cyfarfod Blynnyddol Clybiau Ffermwyr Ifanc Cenedlaethol. Cafwyd penwythnos gwych, gyda'r helyntion yn destun trafod am sawl wythnos ar ôl dod adre! Yn ystod y penwythnos, cynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol y mudiad, etholwyd Matt Baker o sioe'r BBC 'The One Show' yn llywydd i'r mudiad a gwnaeth Enfys Evans o glwb Llanddeiniol adrodd hanes o waith CFFI Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cynhaliwyd rhan gyntaf o gystadlaethau chwaraeon y sir ar nos Fercher, 4ydd o Fai ar gaeau chwaraeon Aberaeron. Gan fod nifer mawr o aelodau yn cystadlu yn y gystadlaethau pêl-droed 5 pob ochor, bu rhaid gohirio'r rownd derfynol. Bydd y gystadlaethau yma yn cael ei chynnal ar Nos Wener, 17eg o Fehefin. Bydd canlyniadau llawn y chwaraeon a'r athletau yn adroddiad mis nesaf.

SPLASH! - Llanllŷr, Talsarn, Llambled - Penwythnos o weithgareddau ac adloniant i bawb! Dyma be' sy' 'mlaen: Nos Wener 24ain o Fehefin - Stondinau - 6yh, Rasmus Moch - 7yh, Gwibdaith Hen Fran - Mynediad £5 ar y drws, Plant Ysgol gynradd am ddim. Dydd Sadwrn 25ain o Fehefin - It's a Knockout - 1yh £1 y person timoedd o 6 a gobeithio creu Record y Byd!! Nos Sadwrn 25ain o Fehefin 7yh - HufenIaPoeth, Bryn Fôn, Chip Shop Boys. Tocynnau £10 ar gael o Swyddfa CFFI Ceredigion neu £12 ar y drws. Bydd gwersylla ar gael nos Sadwrn yn unig - £5 y person. Dewch i gefnogi dathliadau CFFI Ceredigion yn 70 oed! Ffoniwch Marek neu Anne ar 01545 571 333 am fwy o wybodaeth.

Cornel yr Urdd



Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg Cenedlaethol yr Urdd

Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6 - 1af Zoe Jones, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4 (Gwaith Grŵp) - 3ydd Grŵp Y Dderi, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6 (Gwaith Grŵp) - 1af Liam Newitt a Bradley Rowlands, Ysgol Gynradd Y Dderi; 2D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) - 2il Grŵp Llambled, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) - 1af Grŵp Michael Hancock, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (D) - 1af Grŵp Llambled, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (D) - 3ydd Grŵp Catrin, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Pyped Bl. 3 a 4 - 2il Ffion Betts, Ysgol Gynradd Y Dderi; Pyped Bl. 5 a 6 - 3ydd Georgie Hines, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gwau/Crosio Bl. 3 a 4 - 1af Jennifer Studman-Badillo, Ysgol Gynradd Y Dderi; Gwehyddu Bl. 2 ac iau - 2il Michaela Michelle, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gemwaith Bl. 2 ac iau - 2il Nia Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gemwaith Bl. 5 a 6 - 2il Megan Webb, Ysgol Gynradd Y Dderi; Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau - 2il Joseph Gregg, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Creu Artefact Bl. 2 ac iau - 3ydd Grŵp Brynmor, Ysgol Gynradd Y Dderi; CAD Bl. 12 a dan 19 oed - 1af Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; CAD / CAM Bl. 7-9 - 2il Gwennan Holt, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan;

Canlyniadau Gwaith Cartref Cenedlaethol yr Urdd

Cerddoriaeth (Cyfansoddi) Cyfansoddi Cerddoriaeth Oedran Blwyddyn 6 ac iau - 2il Briallt Wyn Williams, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; Rhyddiaith Oedran Blwyddyn 4 ac iau - 3ydd Leela Attala-Gibson, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Creu Gwefan Blwyddyn 6 ac iau (unigol neu grŵp) - 1af Mari Lewis, Ysgol Carreg Hirfaen; Creu Gwefan Bl. 7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) - 2il Morgan Lewis, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

Cill Taylor ar ei beic



Fe ddechreuodd 'Byw'r Freuddwyd' i mi ar Fawrth 28 eleni pan benderfynais gael cipolwg ar wefan y National Autistic Society am y tro cyntaf yn sgil dysgu fod ein ŵyr ar y Sbectrwm Awtistig. Yn naturiol roeddwn am ddysgu mwy am Awtistiaeth a fy nyhead oedd i godi arian i'r Gymdeithas er mwyn helpu Lucas ac eraill a effeithir gan Awtistiaeth a Syndrom Aspergers. Felly pan welais ddigwyddiad yn cynnwys y "Tour de France" wedi ei hysbysebu ar y dudalen gartref roeddwn am fod yn rhan o'r Cynllun yn syth, er fe wnes i ffonio fy ngwr i gael ei sêl bendith.

Roedd fy nhad yn seiclwr o fri yn ei ddydd ac yn ddi-os deillia fy mrwdfrydedd o'r achlysuron hynny y bûm yn mynd gydag ef yn flynyddol i'r Velodrom yn Wembley i wylw'r gystadleuaeth rasio chwe diwrnod. Rwyf wastad wedi mwynhau seiclo er mwyn ymlacio neu fel dull amgen o deithio i arbed arian a chadw'n heini!

Doeddwn i ddim eisiau bod yr unig ferch ar y trip felly ar ôl tipyn o berswadio llwyddais i gael Jennifer, fy merch i ymuno â mi. Mae'n rhaid cydnabod mae ein chwe plentyn, y teulu estenedig ynghyd â llawer o ffrindiau, cymdogion, cydweithwyr a busnesau lleol wedi bod yn hynod gefnogol.

Roedd fy nghynnig cyntaf i seiclo pellter sylweddol yn dasg yn ei hunan. Ond ar ôl tipyn o gyngor gan Simon, Sam a'r criw yn Cyclemart fe ddeuthum tipyn yn well.

Bydd yna arwerthiant Elusennol gydag adloniant sef y Red Dragon yn neuadd Drefach Felindre ger Castell Newydd Emlyn ar Fehefin 17eg.

Byddai unrhyw gyfraniadau yn cael eu werthfawrogi'n fawr ac fe'u derbynir drwy fy nhudalen gwe : www.virginmoneygiving.com/GillTaylor.

Byddaf hefyd yn gwneud gweithgareddau codi arian arall yn Llanybydder yn ystod y Twrnament Pêl-droed ar gaeau Ysgol y Dolau ar Fehefin 18fed ac yna yn trefnu "ZUMBATHON" gyda Louise, fy athrawes Zumba yng Nghanolfan Llambled.

DIOLCH YN FAWR I BAWB AM EICH CEFNOGAETH.



Clees y Coleg



Y Brifysgol yn hybu gweithgareddau awyr agored

Dros gyfnod o bedair wythnos, mae plant ysgolion cynradd Llanwenog a Llanwnnen wedi bod yn mwynhau gweithgareddau awyr agored o dan arweiniad myfyrwyr o Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Awyr Agored Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Fel rhan o fodiwl addysg awyr agored, mae'r myfyrwyr wedi bod yn arwain ac yn hyfforddi'r to ifanc i gymryd rhan mewn llu o weithgareddau megis bowldro, cyfeiriannu, datrys problem a chreu cysgod.

Ac am y tro cyntaf eleni, mae'r hyfforddi a'r hwyl wedi bod trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn parhau i dorri tir newydd fel un o'r Ysgolion Academaidd mwyaf blaengar, arloesol ac arbenigol o fewn ei maes yng Nghymru, gan fod yr Ysgol yn dal Cymrodoriaeth Dysgu trwy'r Gymraeg ym maes Addysg Awyr Agored.

Geraint Forster yw'r Cymrawd sy'n gyfrifol am ddatblygu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg "Mae gweithgareddau a'r maes Awyr Agored yn un poblogaidd tu hwnt" meddai Geraint, "ac mae'r plant a'r myfyrwyr wedi bod wrth eu boddau yn ystod yr wythnosau diwethaf yn mwynhau ac yn cadw'n heini a hynny yn y Gymraeg.

Ychwanegodd Ceredig Emanuel, Pennaeth yr Ysgol:

"Mae gennym rôl ganolog i'w chwarae o fewn y gymuned gan ymgysylltu ysgolion a chlybiau lleol gyda'r cyfleusterau a'r cyfleoedd arbennig."

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 100 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.



CEFNOGI CLONC 2011

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of

Cangen / Branch

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambled 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name

Cyfeiriad Llawn / Address

Rhif y cyfrif / Account no

Dyddiad / Date .../.../2011

Arwyddwyd / Signed

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**
neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.

**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw:

Cyfeiriad:

Gorsgoch

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Jean Evans, Llwyn y Gôg yn teimlo'n well ar ôl iddi dreulio rhai diwrnodau lawr yn Ysbyty Glangwili.

Swydd Newydd

Yn ystod yr wythnosau diwethaf llwyddodd Enfys Hatcher, Cefnhafod sicrhau swydd iddi ei hunan fel Athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Ddwyieithog y Preseli. Llongyfarchiadau fil i ti Enfys a phob hwyl i ti yno ym mis Medi.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel helo 'na blant, a beth ydych chi wedi bod yn gwneud yn ystod y mis diwethaf? Rydw i wedi bod yn brysur iawn yn tacluso fy nghartref bach yn barod ar gyfer yr haf, ac rwy' wedi cael fy nillad haf allan yn barod ar gyfer yr haul crasboeth. Er nad yw'r tywydd wedi bod yn wych yn ddiweddar mae rhai diwrnodau braf wedi bod. Tybed beth fuoch chi yn ei wneud? Mi wnes i hefyd gael gafael yn fy hoff fwcad a rhaw i fynd i lan y môr. Beth am liwio'r rhain a'u danfon ataf erbyn 23ain Mehefin?

Wel mi wnaeth llawer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun fy ffrind newydd, Ceirwyn y corrach yn rhoi dŵr i'w blanhigion. Roedd lluniau pawb yn wych, yn enwedig rhai Jamie Jones o Bencarreg, Lleucu Angharad Rees o Benffordd a Nia Morgans o Lanwnnen. Ond y llun mwyaf lliwgar y mis yma yw un Chloe Marie Jones, 10 Heol y Maes, Pencarreg, Llanybydder. Llongyfarchiadau enfawr i ti Chloe Marie.

Pob hwyl gyda'r lliwio y mis hwn eto.

Ta ta tan toc.

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

Chloe
Marie
Jones



Enw:

Cyfeiriad:



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
http://cis.ceredigion.gov.uk

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

Cartrefi'r Cwm Cyf

**GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS**



**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

**FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL**

07814 027849



**CYFLENWI
LLORIAU PREN
CALED A'U GOSOD**



LAS **Recycling Ltd**



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnachol
Newydd**

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:
01570 421421*

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd**
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421



Pentref ymddeol Cwm Aur Llanybydder.

Cartrefi newydd i bobl gydag amser i fwynhau bywyd.

- Cartrefi ymddeol eang 1 & 2 ystafell wely wedi'u hadeiladu yn ôl y safonau cynladwyedd uchaf.
- Wedi'u lleoli yng nghefn gwlad delfrydol, tawel Sir Gaerfyrddin, gyda golygfeydd gwych o Ddyffryn Teifi.
- Wedi'u dylunio i alluogi dull o fyw gweithgar, annibynnol heb y gofidion sy'n gysylltiedig â pherchentyaeth.
- Biliau gwres a dŵr rhatach oherwydd nodweddion amgylcheddol fel paneli solar, lefelau uchel o insiwleiddio a boeler biomas.
- Lolfa, mannau gweithgareddau, llyfrgell a bwyty, lle medrwch gwrdd â chyfeillion a byw bywyd i'r eithaf.
- Gwasanaethau gofal proffesiynol ar gael ar eich stepen drws os oes eu hangen arnoch nawr neu rywbryd yn y dyfodol.



Am fwy o wybodaeth am Gwm Aur neu i gael gweld ein fflat arddangos, cysylltwch â ni ar 01792 488288 neu e-bostiwch timetoenjoy@gwalia.com

cymdogaeth
Gwalia
neighbourhood

O gwmpas y fro...



Ras Sarn Helen y Plant yn dechrau o Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan (adroddiad ar dudalen 6).



Mary Davies, Llywydd Cangen Merched y Wawr Llambled yn plannu coeden gellygen yn y berllan yng Nghysgod y Plas sef gardd Ysgol Ffynnonbedr. Yn ei chynorthwyo mae Rebeca, Kieran, Carys a Daniel yn cynrychioli'r ysgol a Ceinwen Jones, Janet Evans ac Eryl Jones aelodau Merched y Wawr. Mae plannu'r goeden yma yn ran o'r ymgyrch sydd gan fudiad Merched y Wawr.



Maer tref Llambled y Cyng. Hag Harries yn cyflwyno Leno a Daphne Conti gyda tharian Tref Llambled fel arwydd o werthfawrogiad am eu cyfraniad i fywyd y dref drwy redeg Caffi Conti's ers 63 mlynedd. Trosglwyddwyd y Caffi gan dad Leno i'r ddau yn 1948 ac mae eu Hufen iâ unigryw wedi rhoi Llambled ar y map wrth ennill nifer o wobrau Cenedlaethol.



Phyllis Smith MBE a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90oed yn torri cacen a gyflwynwyd iddi mewn cyfarfod o'r Llang Brydeinig er anrhydedd am ei chyfraniad ers 70 mlynedd.



Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder. – Oliwia Taisner yn cyflwyno blodyn i Irene Davies Heol y Gaer a agorodd noson goffi'r pwyllgor nos Wener 13eg o Fai ynghyd â swyddogion y pwyllgor. Croesawyd pawb a chyflwynwyd Irene gan Ogwen Evans.



Cynghorydd Hag Harries yn agor Clwb Bowlio Llambled am y tymor 2011 gyda Sreve Entwistle (Cadeirydd), Morwen Thomas, Brinley Mason, Morfudd Rees, Ron Thomas Lewis Williams Ieuan Jones ac Islwyn Williams.



Lowri Haf Davies yn cyflwyno sic o £520 i'r gymdeithas Alzheimers. Cynhaliwyd noson i godi arian i'r gymdeithas yn Ysgol Gynradd Llanybydder a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.